# Un dydd ar y tro

Archwilio effaith gronnol diwygio lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru



## Ynglŷn â Chyngor ar Bopeth Cymru

Elusen annibynnol yw Cyngor ar Bopeth sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae 20 o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yn aelodau yng Nghymru, ac maent i gyd yn aelodau o Cyngor ar Bopeth Cymru, gan ddarparu gwasanaethau o dros 250 o leoliadau.

Dau nod gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yw:

- darparu'r cyngor sydd ei angen ar bobl ar gyfer y problemau y maent yn eu hwynebu
- gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r cyngor a ddarperir gan wasanaeth Cyngor ar Bopeth am ddim, yn annibynnol, yn gyfrinachol ac yn ddiduedd, ac ar gael i bawb beth bynnag fo'u hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu genedligrwydd.

Gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi yw'r rhan fwyaf o staff gwasanaethau Cyngor ar Bopeth. Mae'r holl staff cyngor, y rhai sy'n cael eu talu a'r rhai sy'n gwirfoddoli, yn cael eu hyfforddi mewn sgiliau cynghori ac yn cael hyfforddiant rheolaidd i'w diweddaru ar bynciau penodol ac yn cael mynediad i gymorth arbenigol sy'n seiliedig ar bynciau penodol.

Mae canolfannau lleol, o dan delerau aelodaeth Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor craidd sy'n seiliedig ar dystysgrif safonau ansawdd ar fudd-daliadau lles /credydau treth, dyledion, tai, cynhyrchion a gwasanaethau ariannol, materion defnyddwyr, cyflogaeth, iechyd, mewnfudo a lloches, materion cyfreithiol a materion perthynas a theulu.

Mae gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldebau bellach i gynrychioli defnyddwyr o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU i'r dirwedd defnyddwyr. O 1 Ebrill 2014 ymlaen, mae hyn yn cynnwys ymgymryd â swyddogaethau statudol a chyfrifoldebau i gynrychioli defnyddwyr post ac ynni gan Dyfodol Defnyddwyr.

## Diolchiadau

Hoffai Cyngor ar Bopeth Cymru ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at yr ymchwil. Roedd rhannu eich straeon personol, a oedd yn rhai dirdynnol yn aml, yn amhrisiadwy ac ni allem fod wedi cynnal yr ymchwil hon heboch chi.

Diolch hefyd i'r holl dîm yn Shelter Cymru am eu gwaith caled a'u hymrwymiad wrth gynnal y prosiect hwn. Diolch yn arbennig i Dr Jacqueline Aneen Campbell (Rheolwr Prosiect Ymchwil); Jennie Bibbings (Rheolwr Polisi ac Ymchwil); Adam Golten, Jessica McMurchie, Rebecca Jackson, Clare Panton, Kim Francis, Suzanne Mc-Kevitt-Harvey, Gillian Chisnall, Tessa Colquhoun, Fiona Roberts, Jacob Harris, Mike Bailey (Swyddogion Ymchwil); Hannah Berry, Kay Vaughan (Ymchwilwyr Cymheiriaid).

Yn olaf, hoffem ddiolch o galon i'r rhanddeiliaid a'r gwasanaethau di-ri a gynorthwyodd i recriwtio cyfranogwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonoch chi.

## Cynnwys

Crynodeb gweithredol 6

Argymhellion 10

Cyflwyniad 14

Adolygiad o dystiolaeth Canalfannau Cyngor ar Bopeth 15

Diben a methodoleg ymchwil 20

Canfyddiadau ymchwil 22

Effaith ar fywydau o ddydd I ddydd 22
Mecanwaith ymdopi ar gyfer rheoli'r newidiadau 34
Cosbau ac oediadau yn y system 37
Portread y wasg o hawlwyr budd-daliadau 39
Ymwybyddiaeth o newidiadau i fudd-daliadau 40
Cyfathrebu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau eraill 43
Cymorth heddiw ac yfory 45

Casgliadau 51

Atodiad 1: Egluro'r cyd-destun: crynodeb o'r newidiadau diweddar i fudd-daliadau 53

Atodiad 2: Methodoleg ymchwil 58

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar effaith gronnol diwygio lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth gan y rhwydwaith o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn ogystal ag ymchwil ansoddol bwrpasol a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru i ystyried y 'profiad ymarferol' o'r newidiadau diweddar i fudd-daliadau.

Mae'r ymchwil olaf hwn yn edrych yn fanwl ar sut mae'r newidiadau yn effeithio ar feysydd pwysig ym mywydau hawlwyr yn cynnwys eu hiechyd corfforol a meddyliol, trefniadau byw, gwaith a'u harferion chwilio am waith, a'u perthynas ag eraill. Mae'n edrych hefyd ar y dulliau ymdopi mae pobl yn eu defnyddio i'w helpu i reoli'r newidiadau; eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o newidiadau a gyflwynir yn y dyfodol, yn cynnwys cyflwyno'r credyd cynhwysol, a'u gallu yn eu tyb nhw i ymdopi yn y dyfodol. Canfyddiadau'r gwaith ymchwil yw prif ran yr adroddiad hwn.

Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno cyfres gyfan o ddiwygiadau i system fudd-daliadau'r DU, diwygiadau na welwyd mo'u tebyg ers degawdau. Mae llawer o'r diwygiadau hyn wedi'u rhoi ar waith eisoes gyda newidiadau sylweddol yn dod i rym dros y pymtheg mis diwethaf (ers mis Ebrill 2013). Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno cosb am danfeddiannu i hawlwyr budd-dal tai (y mae rhai sylwebwyr yn ei galw'n 'dreth ystafell wely'); cyflwyno taliadau annibyniaeth personol, a fydd yn cymryd lle lwfans byw i'r anabl; a diddymu budd-dal y dreth gyngor a'r gronfa gymdeithasol ddewisol (sef benthyciadau argyfwng a grantiau gofal cymunedol). Mae credyd cynhwysol, sef un o'r newidiadau mwyaf yn ddi-os, yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y tair blynedd nesaf, a bydd yn dwyn ynghyd chwe budd-dal mewn gwaith ac allan o waith mewn un taliad.

### *Tystiolaeth Canolfannau Cyngor ar Bopeth 2013/14*

Mae'r dystiolaeth gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth yn dangos y graddau mae'r newidiadau i fudd-daliadau eisoes yn cael effaith ar lawer o'n cleientiaid. Dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf mae nifer y problemau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau a chredyd treth y bu'n rhaid i ganolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru ymdrin â nhw wedi cynyddu'n sylweddol. Dyma'r broblem fwyaf bellach o ran y ceisiadau am gymorth gan gleientiaid, gan gyfrif am dros ddwy ran o bump (42 y cant) o holl broblemau Cymru yn ystod 2013/14 (dros 141,500 o broblemau). Materion sy'n gysylltiedig â'r lwfans cyflogaeth a chymorth yw'r broblem fwyaf cyffredin ym maes budd-daliadau o hyd, gyda llawer o gleientiaid yn gofyn am gymorth gydag apeliadau budd-daliadau neu faterion sy'n ymwneud ag asesiad gallu i weithio. Fodd bynnag, yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi gweld cynnydd nodedig hefyd yn nifer y bobl sy'n dod atom i gael cyngor ar broblemau gyda thaliadau annibyniaeth bersonol (gyda llawer o gleientiaid yn aros am fisoedd i gael penderfyniad ar eu hawliad taliad annibyniaeth bersonol); problemau sy'n gysylltiedig â'r gosb tanfeddiannu, a phobl sydd angen cymorth gyda chosbau lwfans ceiswyr gwaith.

Mae ein hymchwil ansoddol yn adeiladu ar y dystiolaeth hon ac yn cadarnhau'r effaith niweidiol mae diwygio lles yn ei chael ar fywydau llawer o hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Yr argraff a geir yn anad dim yw mai dim ond llwyddo i gael dau ben llinyn ynghyd y mae pobl yn hytrach na byw unrhyw fath o fywyd sy'n rhoi boddhad iddynt.

### *Effaith ar fywyd bob dydd*

Yn achos y mwyafrif o bobl a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil, roedd y newidiadau i fudd-daliadau wedi arwain at ostyngiad yn incwm eu cartref. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn cael trafferth i gynnal safon byw dderbyniol ac yn aml yn mynd heb bethau sylfaenol fel bwyd, gwres digonol yn eu cartref a dillad fel y gallant dalu'r rhent a fforddio biliau hanfodol eraill y cartref. Yn aml bydd rhieni'n aberthu eu hanghenion eu hunain er mwyn bwydo eu plant a cheisio sicrhau rhyw fath o normalrwydd iddynt. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a fu'n rhan o'r ymchwil wedi'u heffeithio gan y gosb tanfeddiannu ac yn ofni colli eu cartref neu orfod symud i ffwrdd oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau. Mae'n amlwg bod hyn i gyd yn rhoi pwysau ar eu perthynas ag eraill.

Mae anawsterau ariannol parhaus yn golygu nad oes dewis gan lawer o bobl ond mynd i ddyled, tra bo eraill yn cael trafferth i gadw at drefniadau a wnaed i fynd i'r afael â'u problemau ariannol blaenorol. Mae trefn gosbi lymach ac oedi mewn prosesau penderfynu yn golygu bod rhai pobl wedi bod heb incwm o gwbl am gyfnod, sydd wedi ychwanegu at eu caledi.

Yr hyn sy'n peri pryder gwirioneddol yw pa effaith y mae byw ar incwm llai a'r pryder parhaus am y dyfodol yn ei chael ar iechyd meddyliol a chorfforol pobl. Mae bron pawb a fu'n rhan o'r ymchwil yn dweud bod eu hiechyd meddyliol wedi dirywio ers i'r newidiadau i fudd-daliadau effeithio arnynt, boed ganddynt broblem iechyd meddwl cyn hynny ai peidio. Mae llawer o'r rhai a gymerodd ran, yn enwedig y rhai sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, yn teimlo cywilydd ac yn isel oherwydd eu sefyllfa ond heb unrhyw rym i wneud unrhyw beth amdani. Mae teimladau o'r fath wedi'u dwysáu gan y portread negyddol o bobl ar fudd-daliadau a gyflwynir gan y cyfryngau. Gall arferion bwyta gwael, byw mewn cartrefi heb wres digonol, diffyg cymdeithasu a bod yn llai actif gael effaith hirdymor ar iechyd corfforol a meddyliol llawer o bobl hefyd.

Mae'r rhai sy'n gallu gweithio am gael swydd neu weithio oriau hirach ond mae eu hymdrech i ddod o hyd i swydd yn cael ei llesteirio gan ofal plant costus a'r ffaith nad ydynt yn gallu fforddio trafnidiaeth a dillad ar gyfer cyfweliadau, neu oherwydd nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd gartref i chwilio a gwneud cais am swyddi.

### *Ymwybyddiaeth o newidiadau i fudd-daliadau*

Nid oedd gan fwyafrif y rhai y buom yn siarad â nhw ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r newidiadau i fudd-daliadau a sut y byddent yn effeithio arnyn nhw nes iddynt gael eu cyflwyno. Roedd dosbarthu gwybodaeth anghywir neu anhygyrch a'r diffyg cyfathrebu rhwng asiantaethau allweddol, yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Canolfan Byd Gwaith, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a meddygon teulu, yn gwaethygu'r sefyllfa gan wneud i bobl deimlo'n ddryslyd ac yn ddiymadferth.

Cafwyd cryn feirniadaeth ar yr Adran Gwaith a Phensiynau yn arbennig o ran y ffordd y maent yn cyfathrebu â hawlwyr, yn enwedig gan rai ymatebwyr sy'n byw gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Roedd diffyg cydymdeimlad gan staff rheng flaen a llythyrau arwynebol cyffredinol ymysg y materion eraill a godwyd. Roedd llawer yn credu y gellid gwneud mwy i sicrhau bod gan staff rheng flaen ddealltwriaeth well o rai o'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu.

Roedd ymatebwyr oedd eisoes yn defnyddio gwasanaethau cymorth yn teimlo eu bod eu gwybodaeth am y newidiadau i fudd-daliadau yn dda. Roeddynt hefyd yn dueddol o deimlo'n fwy hyderus am eu gallu i reoli newidiadau yn y dyfodol. Er hyn, ychydig iawn oedd ag unrhyw wybodaeth wirioneddol am y credyd cynhwysol a sut y gallai effeithio arnynt.

Roedd hi'n amlwg bod dirfawr angen am ragor o wybodaeth am y ffordd y byddai newidiadau yn effeithio arnynt wrth iddynt gael eu cyflwyno a'u gweithredu yn y dyfodol. Yn achos rhai o'r bobl y buom yn siarad â nhw roedd meddwl am ragor o newidiadau yn gwneud iddynt boeni mwy, yn enwedig pobl sy'n byw ag anabledd neu salwch hirdymor a oedd yn credu y byddai eu sefyllfa ariannol yn annhebygol o wella.

Clywsom am enghreifftiau o ymyrraeth gadarnhaol gan landlordiaid cymdeithasol i helpu eu tenantiaid reoli'r newidiadau i fudd-daliadau, ond nid oedd hyn yn gyson ledled Cymru o bell ffordd .

### *Cymorth nawr ac yn y dyfodol*

Er bod nifer o'r ymatebwyr wedi elwa ar y cymorth sydd ar gael gan eu landlord ac asiantaethau eraill (yn cynnwys Cyngor ar Bopeth a Shelter Cymru), roedd llawer heb dderbyn unrhyw gymorth o gwbl i'w helpu i reoli'r newid.

Mae'r dull ymgysylltu a ddefnyddir a phwy yn union yw'r sefydliad sy'n darparu'r cyngor a'r cymorth yn bwysig. Mae pobl yn gwerthfawrogi cyngor annibynnol, wyneb-yn-wyneb – yn cynnwys y dewis i gael ymweliadau cartref lle bo angen. Er bod yr opsiwn o gael cyngor dros y ffôn neu ar-lein yn ddymunol, mynegodd nifer o bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil bryder am orddibynnu ar y rhyngrwyd a rhoi gwybodaeth ar-lein gan nad yw hwn yn opsiwn hygyrch i bobl â chyflyrau neu anableddau penodol.

Mae'r gwaith ymchwil hwn a'r dystiolaeth ehangach gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru yn dangos bod y newidiadau i fudd-daliadau lles yn cael effaith negyddol yn bennaf hyd yn hyn ar fywydau hawlwyr.

Nid ydym wedi gweld y lefel hon o newid ag sy'n digwydd i system les y DU ar hyn o bryd o'r blaen yn y cyfnod modern. Mae'n bwysicach fyth felly bod yr Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau eraill, y mae eu preswylwyr, tenantiaid a chleifion yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn eisoes, yn dysgu gwersi er mwyn gallu gwella cymorth yn y dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig cyn cyflwyno'r ddau newid mwyaf sydd eto i'w rhoi ar waith ar raddfa fawr - y credyd cynhwysol a'r broses barhaus o gyflwyno taliadau annibyniaeth bersonol yn lle lwfans byw i'r anabl.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod angen i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac eraill gyflwyno ymyriadau wedi'u targedu i sicrhau bod hawlwyr a darpar hawlwyr yn derbyn gwybodaeth gywir ac amserol am y newidiadau, ac yn gallu cael gafael ar y cymorth iawn pan fo angen. Mae ein canfyddiadau yn pwysleisio pwysigrwydd darparu cymorth holistig i hawlwyr hefyd - cysylltu gwybodaeth am newidiadau i fudd-daliadau gyda chyngor ar ddiwallu anghenion gallu ariannol/cymorth cyllidebu; cyngor ar ddyledion; gwneud y gorau o incwm; cyngor ar dai a chymorth iechyd meddyliol a chorfforol.

Mae gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai rôl allweddol o ran helpu pobl i reoli'r newidiadau. Mewn hinsawdd ariannol mor anodd, bydd dysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arferion gorau, yn enwedig gydag achosion o ôl-ddyledion o fudd i'r rhai y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt a'r awdurdodau priodol.

Wrth nodi'r effaith sylweddol y mae'r diwygiadau yn ei chael ar iechyd pobl, mae gan wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol waith cynyddol bwysig i'w gyflawni. Gall methu cydgysylltu cymorth yn well arwain at gostau cynyddol i'r GIG yng Nghymru wrth i iechyd a lles pobl ddirywio.

Bydd rheoli a chydgysylltu sut y gall gwahanol asiantaethau yng Nghymru ac asiantaethau allweddol yn y DU (yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith) gydweithio'n well i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan y diwygiadau lles yng Nghymru yn hanfodol er mwyn gallu diwallu anghenion cymorth pobl yn y dyfodol. Credwn fod Llywodraeth Cymru mewn lle da i ddarparu'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i gyflawni hyn fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Trechu Tlodi.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill wedi bod yn gweithio ledled Cymru i helpu degau o filoedd o bobl sydd wedi'u heffeithio gan y newidiadau lles hyd yn hyn. Yn ogystal â hawlwyr budd-daliadau, bydd y broses o ddiwygio lles yn parhau i effeithio'n sylweddol ar amrywiaeth o sefydliadau a gwasanaethau dros y blynyddoedd nesaf, yn cynnwys darparwyr cyngor, llywodraeth leol, darparwyr tai cymdeithasol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Gyda diwygiadau mwy ar y gorwel mae mwy o angen nag erioed am waith aml-asiantaeth. Dylai cydweithio i sicrhau bod hawlwyr yn cael gwybodaeth ac yn barod i ymdopi â newidiadau yn y dyfodol helpu i atal pobl sy'n dibynnu ar sicrwydd incwm o fudd-daliadau rhag wynebu tlodi a chaledi cynyddol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud cyfres o argymhellion yn sgil ein hymchwil.

***Hyrwyddo arferion da***

Dylai Llywodraeth Cymru:

- nodi a rhannu arferion da gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru yn eu gwaith i helpu pobl y mae'r newidiadau diweddar i fudd-daliadau a newidiadau yn y dyfodol yn effeithio arnynt. Dylai hyn gynnwys cymryd camau i fynd i'r afael ag arferion gwael lle bo angen hefyd.

Dylai awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol eraill yng Nghymru:

- ganolbwyntio mwy ar fabwysiadu arferion gorau yn y maes hwn, gan gynnwys:
    - mabwysiadu dull rhagweithiol o rannu gwybodaeth, siarad â phobl yn eu cartrefi a chynnal cyfarfodydd agored
    - cyfeirio pobl at gyngor annibynnol ar fudd-daliadau lles lle'n briodol er mwyn eu helpu i ddeall y newidiadau a darparu cymorth wrth apelio yn erbyn penderfyniadau am fudd-daliadau os oes angen
    - sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at gyngor ar ddyledion ac arian os oes angen er mwyn sicrhau cyngor diduedd, ynghyd â mathau eraill o gymorth, gan gynnwys cymorth gyda biliau ynni (e.e. Gostyngiad Cartref Cynnes; cyngor ar newid cyflenwyr)
    - manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo taliadau tai yn ôl disgresiwn
    - sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu wyneb yn wyneb a sicrhau bod cyfryngau eraill ar gael fel gwasanaethau ffôn ac ar-lein i'r rhai sydd eu hangen
    - sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant fel bod gwybodaeth yn amserol ac yn gywir
    - sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei hysgrifennu mewn fformatau clir a hygyrch er mwyn bod yn addas i wahanol anghenion pobl.

Dylai awdurdodau lleol yng Nghymru:

- beidio ag ystyried budd-daliadau anabledd fel lwfans byw i'r anabl a thaliadau annibyniaeth bersonol wrth asesu incwm hawlwyr yn ystod y broses o wneud cais am daliadau tai yn ôl disgresiwn, fel sy'n digwydd eisoes yn achos budd-dal tai a budd-daliadau eraill sy'n dibynnu ar brawf modd.

### *Rôl gwasanaethau iechyd*

Dylai Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol:

- gydweithio i wella integreiddiad gwasanaeth cynghori annibynnol mewn lleoliadau gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd er mwyn sicrhau bod hawlwyr budd-daliadau a darpar hawlwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn gallu cael mynediad i'r cymorth amrywiol a allai fod ar gael iddynt ar y cyfle cyntaf.

Dylai Byrddau Iechyd Lleol a Chydffederasiwn y GIG yng Nghymru:

- gydweithio i helpu i godi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, yn enwedig staff rheng flaen, o'r diwygiadau a'r effaith y gallant ei chael ar gleifion er mwyn gallu rheoli eu cyflwr yn unol â hynny.

Dylai meddygon teulu a darparwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru:

- wella systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth â'r cwmni(ïau) sy'n cynnal Asesiadau Gallu i Weithio ar gyfer lwfans cyflogaeth a chymorth a thaliad annibyniaeth bersonol.

Dylai darparwyr gwasanaethau iechyd yng Nghymru:

- gefnogi ymgyrch 'Ffit i weithio' Cyngor ar Bopeth sy'n cynnwys galwad ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r holl dystiolaeth feddygol sydd ei hangen am ddim er mwyn prosesu hawliadau/apeliadau lwfans cyflogaeth a chymorth.

### *Mynd i'r afael ag allgau digidol*

Fel rhan o'i Chynllun Datblygu Gwledig 2014-20, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau:

- bod mynediad digidol yn flaenoriaeth uchel ar gyfer ymyriadau lleol
- bod strategaethau datblygu lleol yn archwilio ffyrdd arloesol o sicrhau mynediad fel defnyddio siopau, grwpiau cymunedol neu wasanaethau symudol, gan gynnwys darpariaeth cyngor symudol
- nodi a hwyluso cyfryngau dysgu ar gyfer datblygu sgiliau TG pobl
- dylai Grwpiau Gweithredu Lleol ymgysylltu â phartneriaeth Cyflymu Cymru a chynllun Allwedd Band Eang Cymru i sicrhau'r mynediad gorau posibl i fand eang ffibr a chyfrannu at sicrhau bod cymunedau gwledig yn ymwybodol o argaeledd a photensial gwell mynediad ar y cyfle cyntaf posibl.

### *Darpariaeth banciau bwyd*

Lle’n bosibl, dylai darparwyr banciau bwyd:

- ddarparu bwyd ar gyfer gwahanol anghenion, gan gynnwys pobl â gofynion deietegol penodol
- darparu mwy o fwyd y gellir ei fwyta’n oer
- gofyn am roddion o gyfarpar ac offer coginio sylfaenol.

### *Anghenion gallu ariannol pobl ifanc*

Dylai Llywodraeth Cymru:

- ailsefydlu uned gydlynu ymroddedig (tebyg i Uned Addysg Ariannol Cymru) i ddarparu’r cyfeiriad strategol angenrheidiol ar gyfer gweithredu darpariaeth addysg ariannol ledled Cymru, mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach
- nodi ffyrdd o sicrhau bod cyfleoedd addysg ariannol priodol ar gael i oedolion mewn lleoliadau cymunedol, yn enwedig y rhai sy’n fwy tebygol o wynebu anfantais, fel hawlwyr budd-daliadau ifanc.

### *Dyfodol y Gronfa Cymorth Dewisol*

Dylai Llywodraeth Cymru:

- Barhau i gyllido’r Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru y tu hwnt i fis Mawrth 2015 er mwyn i bobl yng Nghymru sy’n wynebu sefyllfaoedd o argyfwng neu sy’n dioddef caledi penodol gael system cymorth ariannol i droi ati pan nad oes ganddynt unrhyw ddewis arall.

### *Cyfathrebu â’r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith*

Dylai’r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith:

- sicrhau bod yr holl gyngor a ddarperir i hawlwyr yn gywir, amserol, hygyrch ac wedi’i bersonoli ar gyfer y rhai ag anghenion cymorth ychwanegol, gan osgoi llythyrau cyffredinol arwynebol lle’n bosibl

- gwella'r cyfathrebu rhwng eu hunain a sefydliadau eraill fel awdurdodau lleol a chymdeithasau tai er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn fwy cyson er mwyn osgoi rhoi cyngor sy'n gwrthddweud ac yn ddryslyd i hawlwyr
- darparu gwell hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen sy'n ymdrin â hawliadau i wella dealltwriaeth o anghenion ac amgylchiadau hawlwyr
- cynnal adolygiad o'r cynlluniau cyfredol sydd wedi'u sefydlu i helpu pobl i allu fforddio costau hanfodol wrth fynychu cyfweliadau swyddi er mwyn asesu beth arall ellir ei wneud i hyrwyddo neu ymestyn cynlluniau o'r fath.

### *Gwella Asesiadau Gallu i Weithio*

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau:

- wrando ar y dystiolaeth gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n adnabod hawlwyr orau
- sicrhau y darperir y dystiolaeth feddygol sydd ei hangen am ddim er mwyn cyflwyno achos hawliwr
- parhau i dalu'r lwfans cyflogaeth a chymorth i bobl tra y ceir ail farn ar eu cais
- sicrhau bod y cwmni newydd sy'n darparu asesiadau gallu i weithio y lwfans cyflogaeth a chymorth yn atebol am adroddiadau gwael a gwasanaeth cwsmeriaid gwael.

### *Cyflwyno credyd cynhwysol yn raddol*

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau:

- sicrhau bod Fframwaith Gwasanaeth Cymorth Lleol yn darparu cyllid digonol i bartneriaethau lleol i sicrhau bod hawlwyr yn derbyn cymorth cyfannol i reoli'r newid yn y ffordd y mae eu budd-daliadau'n cael eu talu a'u hawlio o dan y credyd cynhwysol.
- sicrhau bod gan bobl ag anableddau difrifol nad oes ganddynt ofalwyr hawl dan y credyd cynhwysol i 'elfen hunanofal' i gymryd lle'r premiwm anabledd difrifol yn y system gyfredol yn rhannol.

# Cyflwyniad

Mae cyfres o newidiadau wedi'u gwneud i system les y DU ers y cychwyn cyntaf. Fodd bynnag, does dim dwywaith bod y diwygiadau sydd yn Neddf Diwygio Lles 2012 ymhlith y rhai mwyaf radical ers y cynigion a amlinellwyd yn 'Adroddiad Beveridge' 1942 [1].

Mae llawer o'r diwygiadau diweddaraf eisoes wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys cyflwyno'r gosb tanfeddiannu ar gyfer budd-dal tai (y cyfeirir ati'n gyffredin fel 'treth ystafell wely' neu 'ddileu'r cymhorthdal ystafell sbâr'); cyfyngiadau ar lwfans cyflogaeth a chymorth seiliedig ar gyfraniadau; diddymu elfennau penodol o'r gronfa gymdeithasol (sef y benthyciadau argyfwng a grantiau gofal cymunedol yn bennaf); cyflwyniad y 'terfyn budd-daliadau' a dileu budd-dal y dreth gyngor.

Mae eraill fel y taliad annibyniaeth bersonol a'r credyd cynhwysol wrthi'n cael eu cyflwyno'n raddol dros y tair blynedd nesaf. Heb os bydd y credyd cynhwysol yn un o'r newidiadau mwyaf i'r system fudd-daliadau ers ei chreu gyda llawer o'r budd-daliadau mewn gwaith ac allan o waith y mae pobl yn dibynnu arnynt ar hyn o bryd am eu hincwm yn cael eu cyfuno yn un 'credyd cynhwysol'[2].

Mae tystiolaeth gan Ganolfannau ledled Cymru wedi arwain at bryderon difrifol am yr effaith y mae'r newidiadau cyfredol yn ei chael ar lawer o'n cleientiaid, ynghyd â hawlwyr budd-daliadau eraill sy'n wynebu amgylchiadau tebyg. Hefyd, tra bod Cyngor ar Bopeth yn croesawu'r egwyddorion allweddol wrth wraidd y credyd cynhwysol, i symleiddio'r system gyfredol a gwneud i waith dalu, rydym yn bryderus hefyd am y ffordd y bydd newid mor fawr yn effeithio ar filiynau o hawlwyr os nad yw'r systemau cymorth iawn ar waith i'w helpu i symud i'r system newydd.

Mae nifer o astudiaethau wedi'u cynnal hyd yma ar effaith diwygio lles ar aelwydydd yng Nghymru a ledled y DU a'r effaith debygol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae llawer o'r ymchwil hyd yma wedi bod yn feintiol ei natur – gan edrych ar y goblygiadau ariannol ac economaidd. Mae llawer llai o astudiaethau wedi bod yn edrych ar y 'profiadau o ddydd i ddydd' o ddiwygio lles yng Nghymru a sut mae'n effeithio ar fywydau pobl.

Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru am adeiladu ar ein tystiolaeth gyfredol gan ganolfannau i fynd i'r afael â hyn a chael darlun manylach o'r 'profiad ymarferol' o'r newidiadau. Felly, comisiynwyd Shelter Cymru i gynnal ymchwil ansoddol pwrpasol i archwilio effaith gronnol y diwygiadau lles cyfredol a rhai'r dyfodol ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru. Mae manylion y canfyddiadau ymchwil hyn yn yr adroddiad.

[1] Cafodd cynigion Beveridge, a argymhellodd system genedlaethol o fudd-daliadau i ddarparu 'nawdd cymdeithasol' ar gyfer y boblogaeth o'r crud i'r bedd, eu datblygu maes o law gan y Prif Weinidog newydd Clement Attlee ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

[2] Darperir crynodeb byr o'r newidiadau hyd yma a newidiadau'r dyfodol yn yr Atodiad.

# Adolygiad o dystiolaeth Canolfannau Cyngor ar Bopeth

Yn ystod 2012/13, gwelodd Canolfannau yng Nghymru gynnydd aruthrol o 30 y cant mewn problemau ymhlith cleientiaid a oedd yn gysylltiedig â budd-daliadau/credydau treth a hwn yw'r maes â'r problemau mwyaf gydol 2013/14.

Problemau sy'n gysylltiedig â budd-daliadau/credydau treth yw oddeutu 42 y cant o'r ymholiadau sy'n cael eu derbyn gan ganolfannau ledled Cymru bellach. Yn 2013/14, cynorthwywyd 47,133 o gleientiaid i ymdrin â dros 141,500 o broblemau a oedd yn gysylltiedig â budd-daliadau. Yn ogystal â hyn, cynorthwyodd Cynghorwyr Arian sy'n gweithio i Brosiect Gwasanaeth Cyngor Arian Wyneb yn Wyneb yng Nghymru [3] dros 1,800 o bobl oedd ag ymholiadau'n ymwneud â budd-daliadau yn ystod 2013/14.

Dangosir dadansoddiad o'r deg prif fater sy'n ymwneud â budd-daliadau lle gofynnwyd am gyngor gan ganolfan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn y tabl isod:

***Tabl 1: Y deg prif fater sy'n ymwneud â budd-daliadau/credydau treth (Ebrill 2013 – Mawrth 2014)***

| Math o fudd-dal: | Nifer y problemau: | % |
|---|---|---|
| Lwfans cyflogaeth a chymorth | 35,801 | 25% |
| Lwfans byw i'r anabl – elfen gofal (11,850)<br>Lwfans byw i'r anabl – elfen symudedd (9,552) | 21,402 | 15% |
| Budd-dal tai | 12,899 | 9% |
| Taliadau annibyniaeth bersonol | 11,029 | 8% |
| Credydau gwaith a'r dreth gyngor | 9,117 | 6% |
| Cymorth lleol ar gyfer y dreth gyngor | 7,239 | 5% |
| Lwfans ceisio gwaith | 6,864 | 5% |
| Credyd pensiwn | 3,941 | 3% |
| Cymhorthdal incwm | 3,625 | 3% |
| Lwfans gofalwr | 3,443 | 2% |

Gan edrych yn fanylach ar rai o'r materion hyn:

- Problemau sy'n ymwneud â'r lwfans cyflogaeth a chymorth yw' broblem fwyaf cyffredin sy'n ymwneud â budd-daliadau sydd gan gleientiaid yng Nghymru. Mae'r prif feysydd sy'n peri problem yn cynnwys ymdrin ag apeliadau; materion sy'n ymwneud â chymhwysedd/hawliadau a phroblemau sy'n gysylltiedig ag asesiadau gallu i weithio [4].

[3] Gan Cyngor ar Bopeth Cymru y mae'r prif gontract ar gyfer darparu'r Prosiect Cyngor Arian Wyneb yn Wyneb yng Nghymru a gyllidir gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol. Bydd y contract cyfredol yn dirwyn i ben ym mis Mawrth 2015.

[4] I fod yn gymwys am lwfans cyflogaeth a chymorth, bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o bobl gael asesiad meddygol wyneb yn wyneb gyda gweithiwr iechyd proffesiynol i asesu eu gallu i weithio. Gelwir hyn yn asesiad gallu i weithio. Os oes gan bobl gyflyrau penodol, yn derbyn triniaethau penodol neu ag anabledd difrifol, ystyrir yn awtomatig fod eu gallu i weithio yn gyfyngedig ac ni fydd angen iddynt gael asesiad gallu i weithio

- gan fod Cyngor ar Bopeth yn helpu mwy o bobl ledled Cymru a Lloegr gyda'r lwfans cyflogaeth a chymorth nag unrhyw fater arall a'n bod yn gweld â'n llygaid ein hunain sut mae'r system gyfredol yn methu cymaint o bobl sâl ac anabl, rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i droi'r lwfans cyflogaeth a chymorth yn 'Ffitrwydd i weithio'[5].

> Roedd cleient o'r Gogledd sy'n briod â dau o blant dibynnol wedi bod yn derbyn budd-dal analluogrwydd ers 12 mlynedd oherwydd nifer o gyflyrau iechyd hirdymor. Yn ddiweddar, mae wedi cael ei symud i'r lwfans cyflogaeth a chymorth a datgelodd Asesiad Gallu i Weithio ym mis Rhagfyr 2013 ei bod yn 'ffit i weithio'. Heriodd y penderfyniad hwn a gofynnodd am ailystyriaeth orfodol ym mis Ionawr 2014. Ar ôl clywed y gallai'r broses ailystyriaeth orfodol gymryd hyd at 8 wythnos, derbyniodd wybodaeth anghyson barhaus gan wahanol gynghorwyr yn y Ganolfan Byd Gwaith ynglŷn ag a fyddai'n gymwys i hawlio lwfans ceisio gwaith ai peidio yn ystod cyfnod yr ailystyriaeth orfodol. Roedd hyn yn ei drysu a heb ei lwfans cyflogaeth a chymorth am sawl wythnos pan y gallai fod wedi hawlio incwm budd-daliadau ychwanegol o bosibl wrth ddisgwyl i'w hachos gael ei adolygu.

- Problemau gyda budd-dal tai oedd y drydedd broblem fwyaf cyffredin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae meysydd lle ceir problemau'n cynnwys materion sy'n ymwneud â chymhwysedd/hawliadau; taliadau yn ôl disgresiwn a newidiadau mewn amgylchiadau. Cynyddodd ymholiadau am y gosb tanfeddiannu yn ystod y flwyddyn hefyd.

> Mae cleient sydd â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu camau meddiannu gan ei landlord cymdeithasol oherwydd ôl-ddyledion rhent. Mae'r rhain wedi cronni ers cyflwyno'r gosb tanfeddiannu. Mae'n rhiant sengl di-waith sy'n byw mewn eiddo 3 ystafell wely gyda'i dwy ferch 12 ac 8 oed. Mae'n derbyn lwfans ceisio gwaith ac mae didyniadau uniongyrchol yn cael eu tynnu o'i budd-dal ar gyfer benthyciad cronfa gymdeithasol ac ôl-ddyledion ar ei bil dŵr. Mae talu ei diffyg wythnosol yn ei rhent a'i thaliadau nwy a thrydan yn ei gadael gyda llai na £3 yr wythnos ar gyfer costau cynnal aelwyd hollbwysig eraill yn cynnwys bwyd a dirwy llys ynadon. Ni eglurwyd y newidiadau yn ei budd-dal tai iddi a bod disgwyl i'w phlant dan 16 oed rannu ystafell oherwydd eu bod o'r un rhyw, ac felly nid oedd yn ymwybodol bod yn rhaid iddi dalu'r diffyg yn ei rhent (£11.19 ychwanegol yr wythnos). Mae'n wynebu colli ei chartref yn awr.

[5] http://www.citizensadvice.org.uk/index/campaigns/current_campaigns/fitforwork.htm

- Mae problemau mewn perthynas â'r taliad annibyniaeth bersonol wedi bod yn cynyddu'n gyson ers ail chwarter 2013/14 (o ganlyniad i hawliadau newydd a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gofyn i rai hawlwyr lwfans byw i'r anabl yng Nghymru wneud cais am y taliad annibyniaeth bersonol). Tra bod problemau gyda lwfans byw i'r anabl yn parhau (fel y dengys Tabl 1), materion sy'n ymwneud â'r taliad annibyniaeth bersonol yw'r bedwaredd broblem fwyaf cyffredin ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o faterion yn ymwneud â chymhwysedd; llenwi a gwirio ffurflenni a help i gyflwyno neu reoli hawliad. Dengys tystiolaeth anecdotaidd gan ganolfannau bod llawer o gleientiaid yn disgwyl am sawl mis cyn derbyn penderfyniad ar eu hawliad taliad annibyniaeth bersonol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif y gallai gymryd hyd at 26 mis.

Mae cleient yn y De yn byw gyda'i wraig a'i ddau blentyn ifanc dan ddwy oed. Mae ganddynt forgais bach a rhywfaint o ddyled. Maent yn cael anhawster ariannol ac nid oedd ganddynt wres na dŵr poeth pan aethant i'r Ganolfan. Mae'r cleient yn derbyn cyfradd asesiad ar y cyd y lwfans cyflogaeth a chymorth (namyn didyniadau), credyd treth plant a budd-dal plant. Gwnaeth gais am daliad annibyniaeth bersonol ym mis Gorffennaf 2013. Dros fis yn ddiweddarach, clywodd bod adroddiad wedi'i ysgrifennu ac yn aros i gael ei arwyddo gan uwch weithiwr iechyd proffesiynol. Pan gysylltodd y ganolfan â Capita, dywedwyd wrthynt nad oedd modd rhoi unrhyw syniad pa mor hir y byddai'r broses hon yn ei chymryd. Mae'r cleient yn mynd yn fwy a mwy gofidus ynglŷn ag a fydd ei gais yn cael ei dderbyn ai peidio. Mae'n rhwystredig iawn wrth geisio cael atebion gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Capita. Mae pobl yn clywed y bydd eu hawliadau'n cael eu hôl-ddyddio os ydynt yn cael eu derbyn, ond mae'r oedi wrth brosesu ceisiadau'n golygu bod llawer o bobl yn wynebu caledi ariannol.

- Mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru a Lloegr wedi gweld cynnydd o 60 y cant mewn problemau sy'n ymwneud â chosbau sy'n gysylltiedig â'r lwfans ceisio gwaith ers y newidiadau i'r system ym mis Hydref 2012[6]. O'r 100,000 o dalebau banciau bwyd a roddwyd gan Ganolfannau y llynedd, roedd angen 16 y cant oherwydd cosbau budd-daliadau. Hefyd, roedd gan un o bob chwe chleient yng Nghymru a oedd yn gofyn am gymorth gyda chosbau lwfans ceisio gwaith broblemau dyledion (16 y cant); mae gan oddeutu un o bob pedwar blant dibynnol (23 y cant), ac mae cyfran debyg yn disgrifio'u hunain yn anabl neu â chyflwr iechyd hirdymor (24 y cant). Yn ôl ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae 9 y cant o holl hawlwyr lwfans ceisio gwaith yng Nghymru wedi'u cosbi [7].

[6] Emerging trend: JSA sanctions Barometer, Cyngor ar Bopeth (Ebrill 2014)
[7] Ffigurau a gafwyd drwy ddefnyddio adnodd Stat-xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gan edrych tua'r dyfodol, ceisiodd astudiaeth beilot ddiweddar gan Cyngor ar Bopeth[8] ddeall sut y byddai cleientiaid 'perthnasol 'credyd cynhwysol'[9] yn cael eu heffeithio gan y credyd cynhwysol, gan gynnwys eu gallu yn y meysydd allweddol canlynol: rheoli taliadau misol; cyllidebu; bancio; cael y wybodaeth ddiweddaraf a mynd ar-lein.

Dangosodd y casgliadau y byddai naw o bob deg cleient o'r fath angen cymorth i reoli'r pontio mewn o leiaf un maes gallu a nodwyd. Byddai bron i ddau o bob pump (38 y cant) angen cymorth yn y pum maes gallu.

Mae'r ymchwil yn helpu i amlygu manteision ymyrraeth gynnar hefyd. Ar ôl derbyn cyngor a chymorth gan wasanaeth Cyngor ar Bopeth, mae gan dros hanner y cleientiaid sgiliau gwell yn y pum maes allweddol.

[8] 'Peilot rheoli'r newid i Gredyd Cynhwysol (Rhagfyr 2013)
[9] h.y. cleientiaid sy'n derbyn un neu fwy o'r budd-daliadau ar hyn o bryd a fydd yn rhan o'r Credyd Cynhwysol.

## Diben a methodoleg ymchwil

Y prif reswm dros gomisiynu ymchwil ychwanegol yw adeiladu ar y dystiolaeth gyfredol a geir drwy'r canolfannau i gael darlun manylach o brofiadau pobl o ddydd i ddydd yn sgil y newid i fudd-daliadau.

Gan fod gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth gyfrifoldeb bellach i gynrychioli defnyddwyr (o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU i'r dirwedd defnyddwyr), roedd yr ymchwil yn cwmpasu unrhyw hawlwyr budd-daliadau ac nid cleientiaid canolfannau'n unig.

Bydd llawer o bobl wedi cael profiad o fwy nag un newid i'r budd-daliadau y maent yn eu derbyn neu'n cael profiad o hynny ar hyn o bryd. Bydd eu gallu i ymdopi ag effaith gronnol y newidiadau hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Mae'n debygol y bydd llawer yn gweld gostyngiad yn eu hincwm. Felly, roeddem am gael gwell dealltwriaeth o sut mae pobl yn ymdopi yn y sefyllfa hon a pha effaith y mae'n ei chael ar eu bywydau.

Roedd yr ymchwil yn ceisio archwilio:

- I ba raddau y mae'r newidiadau yn effeithio ar eu bywydau o ddydd i ddydd (yn gadarnhaol ac yn negyddol), gan gynnwys yr effaith ar eu trefniadau byw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; eu gallu i dalu costau byw cyffredinol; cysylltiadau personol; iechyd meddwl a chorfforol; eu gallu i ddod o hyd i waith a/neu dderbyn addysg neu hyfforddiant

- Mecanweithiau ymdopi cyfredol ar gyfer rheoli'r newidiadau

- Gwybodaeth a dealltwriaeth pobl o'r newidiadau hyd yma, gan gynnwys sut y daethant i wybod amdanynt

- Ymwybyddiaeth gyffredinol o newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys cyflwyno'r credyd cynhwysol a newidiadau posibl i gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor[10], a sut y gallent effeithio arnynt

- Gallu tybiedig pobl i ymdopi â newidiadau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

- Nodi pa fathau o gymorth, os o gwbl, mae pobl ei angen ar hyn o bryd/ei angen yn y dyfodol.

Defnyddiodd yr astudiaeth, a gynhaliwyd gan Shelter Cymru, ddull cyfranogol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio Ymchwilwyr Cyfoed[11] ochr yn ochr â Swyddogion Ymchwil, i gynnal y cyfweliadau a chynghori ar y fethodoleg. Roedd hyn yn helpu i annog cyfranogiad ymysg hawlwyr budd-daliadau yn ogystal â helpu i sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei harwain gan gyfranogwyr.

[10] Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn cyn cyhoeddiad diweddar Gweinidog Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â chymorth y dreth gyngor yng Nghymru – mae manylion pellach yn Atodiad 1.
[11] Mae Swyddog Ymchwil Cyfoed yn gallu uniaethu â'r boblogaeth darged ac felly mae'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon wedi'u heffeithio eu hunain gan newidiadau diwygio lles.

Roedd grwpiau targed yn cynnwys:

- pobl sy'n byw ag anabledd/cyflwr iechyd hirdymor;
- oedolion sengl ifanc;
- cyplau allan o waith gyda phlant/rhieni unigol;
- cyplau sy'n gweithio gyda phlant/rhieni unigol.

Cymerodd 49 o hawlwyr budd-daliadau ran yn yr ymchwil[12]. Roedd yr holl gyfranogwyr o oedran gweithio. Mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr (69 y cant)[13] eisoes wedi'u heffeithio gan ddau newid neu fwy i'r budd-daliadau y maent yn eu derbyn. Roedd y cyfuniad mwyaf cyffredin yn ymwneud â newidiadau i'r lwfans cyflogaeth a chymorth a'r gosb tanfeddiannu. Maent i gyd yn debygol o gael eu heffeithio gan ddiwygiadau yn y dyfodol, sef cyflwyno'r credyd cynhwysol yn bennaf, os nad yw eu sefyllfa bresennol yn newid.

Casglwyd tystiolaeth yn defnyddio cyfuniad o 31 cyfweliad manwl (wyneb yn wyneb ac ar y ffôn) a phum grŵp ffocws bach gyda 18 o bobl. Cafodd cyfranogwyr eu recriwtio drwy ddefnyddio cymorth nifer o sefydliadau a'u rhwydweithiau, yn ogystal â'r dechneg 'pelen eira'[14].

Roedd dosbarthiad daearyddol y cyfranogwyr yn cwmpasu pymtheg ardal awdurdod lleol ledled Cymru. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Cynhaliwyd pob cyfweliad rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2014.

Mae manylion pellach y fethodoleg a phroffiliau'r cyfranogwyr yn Atodiad 2.

[12] Astudiaeth ansoddol yw hon felly oherwydd maint bach y sampl, dylid ystyried y canfyddiadau yn ddangosol yn hytrach na therfynol.
[13] Oherwydd natur yr astudiaeth hon (gweler troednodyn 13) mae unrhyw gyfrannau a ddarperir yn arwydd o'r gyfran o gyfranogwyr yn hytrach na ffigurau terfynol ar gyfer pawb sy'n hawlio budd-daliadau.
[14] Gweler Atodiad 2 am fanylion

# Canfyddiadau ymchwil

## Effaith ar fywydau o ddydd i ddydd

Mae’r system budd-daliadau lles yn wynebu’r newidiadau mwyaf yn ei hanes ar hyn o bryd. Mae nifer o’r newidiadau hyn wedi dod i rym ers mis Ebrill 2013, sy’n golygu bod y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn amser o addasu ac ansicrwydd sylweddol i lawer o hawlwyr.

Un o nodau allweddol y gwaith ymchwil hwn oedd archwilio’r ‘profiad ymarferol’ o’r diwygiadau diweddar ac archwilio effaith y newidiadau lluosog ar fywydau pobl o ddydd i ddydd. Mae’r rhan fwyaf o gyfranogwyr eisoes wedi’u heffeithio gan ddau neu fwy o newidiadau i’r budd-daliadau y maent yn eu derbyn. Newidiadau i’r lwfans cyflogaeth a chymorth, y gosb tanfeddiannu tai cymdeithasol, cyflwyno taliadau annibyniaeth bersonol a chyfundrefn gosbi fwy llym yw’r newidiadau hyn yn bennaf.

At ddiben yr adroddiad hwn, rydym wedi edrych ar yr effeithiau ar draws gwahanol feysydd bywyd – mae’r rhain yn cynnwys yr effaith ar drefniadau byw cyfranogwyr nawr ac yn y dyfodol; eu gallu i dalu costau byw cyffredinol (bwyd; talu biliau; dillad); cysylltiadau personol; iechyd meddwl a chorfforol; eu gallu i ddod o hyd i waith a/neu dderbyn addysg neu hyfforddiant – ond mae cyd-ddibyniaeth gref rhwng pob maes.

### *Effaith ar sefyllfa ariannol pobl*

Un o’r effeithiau mwyaf hyd yma ymysg y rhai a gymerodd ran yn ein hymchwil oedd ar sefyllfa ariannol aelwydydd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae’r newidiadau diweddar i fudd-daliadau wedi arwain at ostyngiad yn incwm pobl. I rai cyfranogwyr, gallai’r gostyngiad mewn incwm fod wedi bod dros dro oherwydd cosb neu wrth aros am benderfyniad apêl (er enghraifft yn ystod cyfnod ailystyried gorfodol ar gyfer y lwfans cyflogaeth a chymorth) - gall cyfnodau fel hyn fod yn galed iawn gan nad oes gan bobl unrhyw incwm o gwbl yn aml. I eraill, yn enwedig y rhai a effeithir gan y gosb tanfeddiannu, mae’r gostyngiad mewn incwm yn fwy parhaol.

*“Mae wedi rhoi pwysau ychwanegol arnom ni’n ariannol; mae un peth yn effeithio ar y llall ac yn ein gadael mewn dyled.”*

Mae llawer o gyfranogwyr yn cael trafferth ymdopi â’u sefyllfa ariannol ac yn ei chael yn anoddach fyth cynnal safon byw ofynnol. Mae’n eu gadael heb allu ariannol i ymdopi â chostau annisgwyl hefyd. Yn aml, mae llai o incwm wedi arwain at anawsterau sy’n effeithio ar agweddau eraill o’u bywydau.

*“Mae pethau’n mynd o ddrwg i waeth dros amser. Torrodd fy mhopty ac yna fy mheiriant golchi, roedd dŵr dros bob man. Pan fo pethau fel hynny’n torri, dyna ni. Nawr, mae’n rhaid i mi ofyn i ffrind fynd â fy nillad budr i’r olchfa, sy’n ddrutach.”*

*"Daeth fy arian i ben. Roedd hi'n amhosib i mi dalu am yr hanfodion heb arian yn dod i mewn. Rwyf wedi bod yn dda yn byw ar ychydig o arian erioed, ond mae hyn yn waeth nag erioed. Roeddwn i'n ceisio bwydo fy nau blentyn yn eu harddegau ar gredydau treth plant a budd-dal plant. Doedd pethau ddim yn cael eu talu ar amser ac roeddwn i'n poeni am fod yn ddigartref eto wrth i mi fynd i ddyled yn gyflym ar fy nghyfrif rhent. Gan fy mod wedi mynd i ddyled roedd rhaid i mi wneud trefniadau i ad-dalu ôl-ddyledion – roedd hyn yn golygu bod arian yn cael ei ddidynnu o'r gyfradd sylfaenol o'r lwfans cyflogaeth a chymorth roeddwn i'n ei derbyn i dalu am ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae arian yn cael ei ddidynnu o hyd am y benthyciad cyllideb a gefais i i geisio cael dau ben llinyn ynghyd."*

Yr hyn sy'n peri'r pryder mwyaf yw bod hyn wedi arwain at fwy o bobl mewn dyled.

Dywedodd saith deg y cant o gyfranogwyr[15] eu bod mewn dyled ac mae gan lawer ôl-ddyledion ar eu rhent a'u biliau cyfleustodau. Mae cysylltiad penodol rhwng ôl-ddyledion rhent â'r gosb tanfeddiannu. Mae'r rhai sy'n cael eu heffeithio wedi bod yn troi at gardiau credyd a benthycwyr stepen y drws i geisio ymdopi.

*"Does gen i ddim arian ar gyfer bwyd, diolch i dduw am Visa. Rwy'n berson sengl felly does gen i ddim cefnogaeth gan bartner. Roeddwn i'n arfer ymdopi'n iawn ond mae popeth wedi'i gwtogi nawr ac rydw i'n byw mewn tlodi bellach."*

### *Effaith ar drefniadau byw nawr ac yn y dyfodol*

Mae'r anawsterau ariannol y mae llawer o bobl yn eu hwynebu o ganlyniad uniongyrchol i'r newidiadau mewn budd-daliadau yn rhoi pwysau sylweddol ar eu gallu i dalu eu rhent yn gyson. O ganlyniad i hynny, mae rhai yn wynebu ôl-ddyledion gyda'r bygythiad dyddiol o fod yn ddigartref neu orfod symud oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau.

*"Cefais lythyr yn dweud eu bod (y Cyngor) am gael gorchymyn meddiannu. Rydw i wedi magu pump o blant yno, gyda fy ngwraig. Mae hi wedi'i chladdu'n eithaf agos – rydw i'n gallu cerdded yno. Fyddwn i ddim yn gallu mynd pe bawn i'n cael fy nghicio allan. Mae'r plant a'r wyrion a'r wyresau i gyd yn byw'n agos. I ble byddwn i'n mynd?"*

Mae diffyg gwybodaeth am y newidiadau wedi golygu bod rhai pobl wedi mynd i ôl-ddyledion heb wybod hynny.

*"Efallai y bydd yn rhaid i mi ystyried symud allan o'r byngalo a symud i gartref llai. Byddai hynny'n straen ofnadwy, pacio ac ati. I ble byddwn i'n mynd? A fyddwn i'n cael cadw fy nghi tywys? Gallwn fod ar fy mhen fy hun yn llwyr. Roeddwn i'n hapus iawn cyn yr holl newidiadau hyn. Dyw hynny ddim yn wir bellach."*

[15] 34 o ymatebwyr

Mae eraill yn byw gyda pherthnasau, naill ai'n methu fforddio symud i eiddo eu hunain neu oherwydd diffyg llety addas yn lleol. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar rai pobl ifanc sengl yn dilyn y newidiadau i'r gyfradd llety a rennir[16] a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2012.

*"Doeddwn i ddim yn gallu rhentu ystafell oherwydd y rheol hon (Cyfradd Llety a Rennir), felly roedd fy mywyd ar stop. Beth bynnag, mae ceisio dod o hyd i ystafell sengl yn unman yn y sir yn amhosibl ac os ydych chi'n dod o hyd i un, does dim trafnidiaeth gyhoeddus yn agos i allu mynd i'r gwaith, felly rydych chi'n gwario'ch cyflog ar fysiau.... un peth ar ôl y llall a dweud y gwir."*

Oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â'r gosb tanfeddiannu a'r ddelwedd yn y cyfryngau bod pawb sy'n derbyn nawdd yn byw'n fras ar y wlad, mae pobl yn teimlo'n euog am fyw yn yr eiddo y maent yn byw ynddo. Trafodir y mater hwn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

*'Rydw i'n teimlo'n euog yn byw yma a dyna'r gwir.'*

### *Y gallu i dalu costau byw cyffredinol*

Mae dros dri chwarter y cyfranogwyr (76 y cant)[17] wedi gorfod torri i lawr ar fwyd o ganlyniad i'r gostyngiad mewn incwm yn dilyn y newidiadau mewn budd-daliadau. Mae llawer yn rhoi blaenoriaeth i rent, biliau a thalu dyledion yn hytrach na phrynu bwyd ar eu cyfer eu hunain.

*"Os nad ydw i'n gallu talu'r holl filiau mewn mis oherwydd eu bod wedi cynyddu, yna dydyn ni ddim yn gallu fforddio bwyta."*

Er mwyn eu helpu i ymdopi ar gyllideb fwy cyfyngedig, mae pobl yn prynu llai o fwydydd ffres oherwydd cost ac oes silff eitemau o'r fath, gan eu disodli gydag eitemau swmp fel pasta a bwyd tun.

*"Mae'n rhaid i mi brynu mwy o basta gan ei fod yn rhad ac yn para'n hirach, ond nid dyna'r peth iachaf. Mae ffrwythau a llysiau ffres yn ddrud, felly rydw i wedi gorfod torri i lawr ar y rhain hefyd."*

Ledled y DU, mae nifer y bobl sy'n troi at fanciau bwyd mewn argyfwng wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Fel rheol, mae cleientiaid banciau bwyd yn cael eu cyfyngu i dri pharsel bwyd argyfwng y flwyddyn. Fel y crybwyllwyd eisoes, y llynedd rhoddodd Canolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr dros 100,000 o dalebau banciau bwyd.

[16] Ers Ionawr 2012, os ydych chi'n sengl (heb ddibynyddion), mewn tŷ rhent preifat ac yn 35 oed neu iau, dim ond hawl i fudd-dal tai (a elwir yn lwfans tai lleol hefyd) sydd gennych ar yr un gyfradd ag y byddech chi'n ei chael am rentu ystafell sengl mewn tŷ a rennir. Dan 25 oed oedd y terfyn oedran yn y gorffennol.
[17] 37 o ymatebwyr

Mae Ymddiriedolaeth Trussell wedi gweld cynnydd o 163 y cant yn y defnydd o fanciau bwyd yn 2013-14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda newidiadau i fudd-daliadau ac oedi yn cyfrif am bron i hanner yr achosion sy'n cael eu cyfeirio (48 y cant)[18].

Yng Nghymru, darparwyd bwyd argyfwng tri diwrnod i 79,000 o bobl yn ystod 2013/14, gan gynnwys 27,901 o blant – sefyllfa erchyll dros ben.

Mae ein canfyddiadau'n adlewyrchu'r sefyllfa hon. Mae nifer o'r bobl a holwyd gennym wedi defnyddio banciau bwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, tra'u bod yn gymorth mewn cyfyngder i lawer o bobl, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio am orfod defnyddio a 'dibynnu' arnynt.

*"Mae'n gwneud i chi deimlo'n ddiwerth – mae'n ddigon drwg bod ar fudd-daliadau."*

*"Rydw i wedi gorfod mynd atyn nhw yn y gorffennol am dalebau. Cafodd fy mudd-daliadau eu hatal dros dro a doedd gen i ddim dewis. Mae'n ergyd i'ch balchder."*

Er teimladau o'r fath, roedd rhai o'r farn bod angen eu hysbysebu'n well i'r rhai sydd eu hangen.

*"Rydw i wedi clywed am bethau fel banciau bwyd. Does gen i ddim syniad sut i ddefnyddio un na lle mae'r banc bwyd. Byddai'n braf cael gwybod gan y byddai'n fy helpu, yn enwedig os yw pethau'n gwaethygu eto."*

*"Pe na bai'r banc bwyd yn bodoli dydw i ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi'i wneud i fwydo fy mab a minnau. Dydw i ddim yn meddwl fod pobl yn gwybod am y banciau bwyd neu bethau eraill sydd ar gael – mae fel petai'r holl beth yn gyfrinach."*

Nododd nifer o gyfranogwyr resymau pam nad yw banciau bwyd yn addas i bawb – naill ai oherwydd rhesymau iechyd neu resymau ariannol. Yn achos rhesymau ariannol, roedd rhai yn poeni am gost coginio'r bwyd neu wedi clywed am achosion lle nad oedd eraill yn gallu fforddio offer coginio.

*"Dydw i ddim yn gallu mynd i'r banc bwyd, mae gen i broblem gyda'r coluddyn, mae bwyd yn effeithio arna i felly mae'n rhaid i mi gael cynhyrchion penodol sy'n helpu i'w reoli. Hyd yn oed pe gallwn i fwyta'r bwyd, fyddwn i ddim yn gallu ei ddefnyddio gan ei fod yn fwyd sych i gyd ac rydw i'n cael trafferth talu am nwy fel y mae hi."*

Mae cynnydd y banciau bwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn destun pryder mawr ym Mhrydain yr unfed ganrif ar hugain – un o genhedloedd cyfoethoca'r byd – ond mae tystiolaeth gan Ganolfannau Cyngor ar Bopeth, ynghyd â'r gwaith ymchwil hwn, yn cadarnhau y rôl hollbwysig sydd ganddynt wrth ddarparu bwyd mewn argyfwng i bobl sydd heb unman arall i droi. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos hefyd nad ydynt yn diwallu anghenion pawb a allai fod yn gymwys i elwa ar eu gwasanaethau ar hyn o bryd.

[18] http://www.trusselltrust.org/stats

### *Effaith ar iechyd corfforol*

Mae pobl sy'n byw ag anableddau a/neu gyflyrau iechyd hirdymor ymhlith y rhai sydd wedi wynebu newidiadau lluosog i'r budd-daliadau y maent yn eu derbyn. Felly, disgrifiodd y rhan fwyaf o bobl a gymerodd ran yn ein hymchwil (80 y cant) eu hunain fel rhai sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

Mae mwy na dau o bob pum cyfranogwr (42 y cant)[19] yn credu bod eu hiechyd corfforol wedi dioddef yn sgil y newidiadau. Roedd hyn wedi'i gysylltu'n bennaf â byw ar incwm is a'r lefelau cynyddol o straen y maent yn ei brofi.

Mae cynnal deiet iach a chartref cynnes yn hynod bwysig i nifer o'r bobl y buom yn siarad â nhw er mwyn osgoi dirywiad yn eu cyflwr meddygol. Fodd bynnag siaradodd llawer ohonynt am y broblem o allu fforddio bwyd iachach neu allu cynhesu eu cartrefi'n ddigonol.

*'Mae'r meddyg wedi dweud wrthyf i brynu bwyd ffres a bwyta digon o bysgod, ond dydw i ddim yn gallu fforddi darn o bysgodyn. Mae'n costio tua £4 ac am hynny rydw i'n gallu prynu pedwar pryd yn [siop bwyd wedi'i rewi adnabyddus]."*

*"Mae'n frwydr go iawn. Rydw i'n gwario £40.00 bob pythefnos ar fwyd, ond nid ar y bwydydd rydw i i fod i'w bwyta [i reoli diabetes]. Mae'n rhaid i mi ddewis y pethau rhataf y galla i eu cael, eitemau â phris wedi'i ostwng, pethau felly."*

Dywedodd nifer o bobl eu bod yn defnyddio lwfans byw i'r anabl i dalu rhent, cyfleustodau a bwyd yn hytrach na'i ddefnyddio i helpu gyda'r anghenion gofal a symudedd, sef yr hyn y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Mae rhai pobl yn cael trafferth fforddio costau teithio ar gyfer apwyntiadau meddygol nad ydynt yn yr ysbyty hefyd. Mae un cyfranogwr sydd wedi cael strôc wedi'i effeithio gan sawl newid i'w fudd-daliadau a chosb. Mae'r gofid a'r ofn sy'n gysylltiedig â hyn yn gwneud iddo boeni y bydd yn dioddef strôc arall.

Mae'r gosb tanfeddiannu yn cael effaith ddifrifol ar lawer o gyfranogwyr. Mae llawer ohonynt yn byw mewn cartrefi wedi'u haddasu'n arbennig ac mae eu landlordiaid wedi dweud wrthynt y bydd yn rhaid iddynt adael eu cartrefi os nad ydynt yn gallu talu'r diffyg yn eu rhent yn dilyn gostyngiad yn eu hawliadau budd-dal tai. Nid oes sicrwydd chwaith pe baent yn symud y byddai eiddo yr un mor addas ar gael iddynt. Felly, efallai y bydd yn rhaid i landlordiaid dalu'r costau ychwanegol o addasu cartrefi llai eraill. Er mwyn sicrhau eu bod yn gallu aros yn eu cartrefi sydd wedi'u haddasu, mae llawer o gyfranogwyr yn dewis mynd heb fwyd neu wres.

[19] 21 o ymatebwyr

## *Effaith ar les ac iechyd meddwl*

Thema gyson drwy'r ymchwil oedd y graddau y mae pobl yn teimlo bod eu balchder a'u hurddas wedi'u herydu ers i'r newidiadau i'r budd-daliadau ddod i rym, yn enwedig y rhai ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor. Disgrifiodd nifer o bobl y cywilydd y maent yn ei deimlo oherwydd eu sefyllfa. Mae yna ymdeimlad cyffredinol o anallu hefyd i wneud unrhyw beth am y sefyllfa.

*"Rydw i'n 50 oed, nid yn 5 oed. Ond rydw i angen cymorth i newid ac ymolchi. Does gen i ddim arian nawr oherwydd y taliad annibyniaeth bersonol ac oherwydd hynny mae'n rhaid i fy ffrindiau fy helpu; ddylen nhw ddim gorfod gwneud hynny. Felly rydych chi'n gofyn i mi beth sydd wedi newid? Rydw i wedi colli fy urddas a'm balchder."*

*"Rydw i'n gyn-gyfreithiwr 63 oed ac roeddwn i'n gofyn am arian gan fy nhad 80 oed i fyw. Fyddech chi ddim yn gwneud hynny ar chwarae bach."*

*"Collais bwysau gan nad oeddwn i'n gallu fforddio bwyta. Ar sawl achlysur bûm am sawl diwrnod heb fwyd. Ar un achlysur roedd yn rhaid i mi anfon fy merch at ei thad i aros gan nad oedd gennym ni fwyd yn y tŷ – roedd yn rhaid i mi ddweud wrtho pam bod angen iddi aros gydag ef, a oedd yn gwneud i mi deimlo mwy fyth o gywilydd."*

Roedd bron pawb o'r cyfranogwyr (94 y cant)[20] yn teimlo bod y newidiadau diweddar wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl. Mae cyfuniad o galedi ariannol ac ofn i achos gael ei ddwyn yn eu herbyn wedi arwain at straen cynyddol, pryder ac iselder i lawer. Roedd rhai yn credu bod cysylltiad uniongyrchol rhwng eu cyflwr â'r newidiadau roeddynt wedi'u profi, tra bod eraill yn credu bod y newidiadau wedi arwain at waethygu cyflwr iechyd meddwl a oedd yn bodoli eisoes.

Siaradodd un ymatebwr a oedd wedi'i ddiagnosio'n ddiweddar â chyflwr corfforol penodol am yr anhawster ychwanegol o reoli ei sefyllfa ariannol gyfyngedig a bywyd teuluol tra'n ceisio dod i delerau â'i salwch.

Mae ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol ac effaith newidiadau sydd ar y gweill yn ychwanegu at lefelau straen.

*"Mae hyn i gyd wedi achosi straen sylweddol. Mae fy ngwraig ar feddyginiaeth ar gyfer ei nerfau ac wedi gorfod cynyddu'r dos sawl gwaith."*

*"Roedd fy sefyllfa ariannol yn effeithio'n ddifrifol ar fy iechyd meddwl. Roeddwn i'n cael anhawster ymdopi gyda'r diagnosis newydd ond roedd methu â gallu bwydo fy nheulu yn gwmwl tywyll dros bopeth. Roedd y meddyg teulu'n gefnogol iawn, dywedodd nad oedd bod dan gymaint o straen yn lles i mi, ond doedd dim ateb."*

[20] 46 o ymatebwyr

*“Peidio â gwybod sy’n achosi’r straen, mae fel aros am yr ergyd farwol, does dim byd allwn ni ei wneud, rydym yn gwbl ddiymadferth.”*

Roedd arwyddion oedd yn destun pryder hefyd ynglŷn â sut mae pobl yn ymdopi â’r straen ychwanegol. Crybwyllodd un neu ddau eu bod yn yfed mwy i’w helpu i ymdopi.

*“Dyw hynny ddim yn helpu fy iselder, ond mae’n well gen i yfed na pheidio yfed y dyddiau hyn. Mae’n fy helpu i ymdopi.”*

### *Effaith ar gysylltiadau personol*

Mae llawer o bobl wedi dweud bod y pwysau o fyw gyda’r newidiadau diweddar i’r system fudd-daliadau yn cael effaith sylweddol ar eu cysylltiadau personol.

Mae bron i ddwy ran o dair (64 y cant)[21] o’r farn bod y diwygiadau wedi effeithio’n negyddol ar eu perthynas â theulu a ffrindiau. Rhoddwyd sawl rheswm am hyn, gan gynnwys straen ar y berthynas pan mae pobl wedi gorfod troi at aelodau’r teulu am gymorth ariannol. Nododd eraill y dirywiad yn eu hiechyd meddwl; eu hanallu i gymdeithasu a oedd yn eu gadael yn teimlo’n unig ac ar eu pen eu hunain, a chywilydd am eu sefyllfa yn arwain at ymbellhau oddi wrth deulu a ffrindiau.

*“Mae gen i gywilydd yn awr. Rwyf wedi ymddieithrio oddi wrth ffrindiau a theulu. Rwy’n mynd i siopau elusen yn awr, dydy hynny ddim yn fy mhoeni ond hoffwn i wneud pethau’n wahanol. Mae gen i gywilydd ohonof fi fy hun. Mae’n rhaid i mi droi cefn ar fy nheulu oherwydd fy nghywilydd.”*

[21] 31 o ymatebwyr

### Astudiaeth achos un*

Mae Sandra wedi'i heffeithio gan gosb tanfeddiannu a newidiadau i'w thaliad annibyniaeth bersonol (mae ganddi gais yn cael ei ystyried ar hyn o bryd). Mae ganddi ddau o blant ag awtistiaeth.

Ddwy flynedd yn ôl, rhoddodd yr awdurdod lleol estyniad i lawr isaf ei chartref i gynnwys ystafell i'w merch aros ac ystafell ymolchi lawr grisiau. Golygai hyn bod ganddi ystafell wely sbâr i fyny'r grisiau ac, ar ôl cyflwyno'r gosb tanfeddiannu, penderfynodd Sandra osod ystafell i letywr a oedd yn ffrind i'r teulu i fod yn ofalwr iddi yn ystod y cyfnodau pan oedd yn gaeth i'r gwely.

Wrth hysbysu'r Adran Gwaith a Phensiynau am y trefniant mewn cyfweliad wyneb yn wyneb, wynebodd faterion ychwanegol:

*"Roedd gen i fy merch anabl mewn cadair olwyn, fy ffrind yn gefn i mi ac roedden nhw'n gofyn yr un cwestiynau â'r ffurflen. Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, cefais lythyr yn dweud fod fy mudd-daliadau wedi dod i ben gan fy mod yn cyd-fyw! Cefais gymorth gan gyfreithiwr ar sail pro bono a ddywedodd wrtha i am apelio. Roedd yr apêl yn hirfaith a bu'n rhaid i mi fynd drwy'r holl beth am yr eildro. Parodd yr apêl dros bedair wythnos tan i benderfyniad gael ei wneud. Yn y bôn, maen nhw'n dweud wrthych chi am gymryd lletywr, rydych chi'n gwneud hynny ac yna maen nhw'n eich cyhuddo o gyd-fyw!"*

Mae hyn wedi effeithio'n gorfforol a meddyliol ar Sandra:

*"Effeithiodd hyn ar fy iechyd meddwl yn ddifrifol ac ychwanegodd at fy salwch corfforol. Rwy'n byw mewn ofn bob dydd eu bod am gnocio'r drws. Mae fy iechyd meddwl wedi gwaethygu'n sylweddol. Yr wythnos diwethaf, cefais fy niagnosio ag anhwylder straen wedi trawma, rwyf wedi teimlo mai hunanladdiad yw'r unig ateb ar dri achlysur ac rwyf ar feddyginiaeth ar gyfer iselder. Mae hyn i gyd ers i'r dwli yma ddechrau."*

Mae effaith diwygio lles wedi bod yn gronnol i Sandra. Roedd heb arian am naw wythnos i gyd. Ar ôl penderfyniad ynglŷn â chyd-fyw, rhoddwyd diwedd ar ei holl fudd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd. Mae Sandra yn fwy caeth i'r tŷ ac yn dibynnu ar ffrindiau gan ei bod yn defnyddio'i lwfans byw i'r anabl i dalu biliau a rhent.

Mae ei sefyllfa bresennol wedi bod yn ergyd galed i'w phlant hefyd:

*"Mae fy mhlant wedi dioddef hefyd. Doedden nhw ddim yn gallu mynd i unman neu wneud dim, roedden nhw'n bodoli yn hytrach na byw. Sut mae dweud na wrth blentyn anabl, awtistig pan ei fod yn rhan o'u strwythur a'u mecanwaith ymdopi."*

* Mae enwau wedi'u newid yn yr astudiaethau achos er mwyn cadw pobl yn anhysbys

Siaradodd nifer o gyfranogwyr am effaith eu sefyllfa bresennol ar eu perthynas â'u plant a'u hwyrion a'u hwyresau.

*"Doeddwn i ddim am i'r teulu wybod. Ond sylwodd fy merched. Mae dwy ohonyn nhw'n dod draw am de bob nos Fawrth a gofynnodd un 'Pam wyt ti'n bwyta hwnna?' a dywedais 'mod i'n methu fforddio dim byd arall. Pen-blwyddi a 'Dolig, dyna beth arall - pan oeddwn i'n gweithio, roeddwn i'n rhoi £100 yr un iddyn nhw fel anrheg 'Dolig. Byddwn i'n cynilo i wneud hynny. Dydw i ddim yn gallu rhoi dim iddyn nhw bellach..... maen nhw wedi dweud wrtha i beidio â phoeni, ond pan fyddan nhw'n rhoi llwyth o anrhegion 'Dolig i mi a minnau'n methu rhoi dim yn ôl, mae hynny'n torri fy nghalon."*

Crybwyllodd un cyfranogwr orfod symud o eiddo dwy ystafell wely i fflat un ystafell wely oherwydd y gosb tanfeddiannu. Mae byw mewn eiddo llawer llai yn golygu nad yw eu hwyrion a'u hwyresau'n gallu dod draw i aros gan nad oes ystafell sbâr. Mae'r teulu'n ymweld yn llai aml o bell ffordd hefyd gan nad oes lle i'w diddanu.

*"Dim ond un person sy'n gallu ymweld ar y tro. Dydw i ddim yn teimlo'n rhan o'r teulu mwyach."*

Dywedodd un fam ei bod yn torri ei chalon gan nad yw'n gallu fforddio cludiant i'w phlant i'r ysgol bellach. Gan and yw'n byw ar lwybr bws, mae'n gorfod eu cerdded i'r ysgol ac yn ôl ym mhob tywydd. Mae'r daith dros 30 munud bob ffordd.

Roedd rhiant unigol arall yn wynebu problemau gyda'i budd-daliadau wrth fyw mewn tŷ Cymorth i Fenywod a rennir gan nad yw'n gallu rhoi'r cyfeiriad i neb na mynychu rhai apwyntiadau. O ganlyniad i hynny, fe'i cosbwyd, a oedd yn golygu nad oedd ganddi arian. Roedd yn rhaid iddi ofyn i'w mam am gymorth ariannol i'w galluogi i gynnal ei pherthynas â'i merch.

*"Byddai mam yn trosglwyddo £10 i'm cyfrif banc o dro i dro er mwyn i mi allu gweld fy merch ambell waith."*

Fel y dengys yr enghraifft uchod, siaradodd nifer o gyfranogwyr am y straen ychwanegol ar eu perthynas ag aelodau'r teulu a ffrindiau agos ar ôl gorfod troi atynt am arian mewn cyfnodau o galedi.

*"Weithiau, mae'n rhaid i mi alw yn nhŷ fy ffrind i fenthyg bwyd, ac rydych chi'n teimlo eich bod yn troi'n dipyn o faich ar bobl."*

### *Effaith ar waith, ymddygiad chwilio am waith ac addysg*

Un o nodau allweddol y newidiadau lles yw cefnogi a galluogi pobl i gael gwaith. Felly, roeddem am gael gwybod i ba raddau mae'r newidiadau lles yn helpu neu amharu ar allu pobl i ddod o hyd i waith. Mae'r holl bobl a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn o oedran gweithio, er mai dim ond llond dwrn sy'n gweithio ar hyn o bryd.

I'r rhai sy'n gallu gweithio, mae ein hymchwil yn dangos sut mae'r newidiadau yn amharu ar allu rhai i chwilio am waith yn hytrach na'u helpu. Yn benodol, mae cael llai o incwm yn cynyddu'r rhwystrau iddynt chwilio am waith. Gall costau teithio'n arbennig fod yn rhwystr sylweddol.

Datgelodd ymchwil ychwanegol a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Cyngor ar Bopeth Cymru[22] i gostau teithio i'r gwaith bod dros ddau o bob pum ymatebwr (43 y cant)[23] sy'n ddi-waith ac yn chwilio am waith ar hyn o bryd yn credu y byddant yn cael anhawster o leiaf yn achlysurol i reoli eu costau teithio i'r gwaith. Mae ychydig dros un o bob deg (11 y cant) yn cael anhawster dod o hyd i waith o fewn pellter fforddiadwy i'w cartref neu'n credu y gallent orfod symud er mwyn dod o hyd i waith.

Mae pryderon o'r fath yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith ymchwil hwn. Dywedodd nifer o gyfranogwyr eu bod yn cael anhawster fforddio trafnidiaeth i'w galluogi i deithio i'r gwaith neu gyfweliadau swyddi. Roedd yr anawsterau i gyrraedd cyfweliadau yn cynnwys anawsterau yn gysylltiedig â chost trafnidiaeth gyhoeddus neu gost cadw car ar y ffordd.

Siaradodd cyfranogwyr eraill am beidio â gallu fforddio dillad newydd ar gyfer cyfweliadau swyddi neu orfod cael gwared ar eu llinell ffôn yn y cartref i arbed ar filiau ffôn. Roedd hyn yn eu gadael heb fynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref sy'n rhwystr arall wrth iddynt chwilio am waith.

*"Rydw i wedi gorfod cael gwared ar y car - doeddwn i ddim yn gallu fforddio ei redeg. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd mynd o'r tŷ, yn enwedig ar ddyddiau pan fo 'nghoesau'n ddrwg. Bydd yn effeithio ar fy ngallu i ddod o hyd i waith yn y dyfodol hefyd pan fydda i'n teimlo'n ddigon da i weithio eto."*

*'Dyw e ddim yn brofiad braf iawn. Rwy'n cael trafferth mynd am gyfweliadau ac i gyfarfodydd. Dydw i ddim yn gallu fforddio prynu'r mathau o ddillad sydd eu hangen arna i i'w gwisgo ar gyfer achlysuron fel hynny."*

Teimlai'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig eu bod dan anfantais benodol yn eu hymgais i ddod o hyd i waith. Gall teithio i'r Ganolfan Waith agosaf fod yn gost fawr iddynt. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr bod y daith yn costio £7.50.

Teimlai un cyfranogwr a oedd wedi'i gosbi ac yn cael anhawster dod o hyd i waith mai'r unig ddewis oedd ganddo oedd bod yn hunangyflogedig. Er nad yw hyn yn broblem ynddo'i hun, gan fod ei incwm yn amrywio cymaint o fis i fis mae'n achos pryder parhaus iddo ef a'i wraig. Mae'r amrywiadau yn ei incwm yn achosi problemau gyda'i fudd-dal tai hefyd ac mae'n byw mewn ofn y bydd yn ei golli.

[22] Cynhaliwyd 1,012 o gyfweliadau wyneb yn wyneb gyda sampl gynrychiadol o oedolion 16 oed a hŷn, fel rhan o Arolwg Omnibws Chwarterol Cymru Beaufort Research. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 3 a 14 Mawrth 2014.
[23] Oherwydd bod y sampl mor fach (66 o ymatebwyr), dylid trin y canfyddiadau hyn fel rhai dangosol yn hytrach na rhai terfynol.

Mae cost gofal plant yn fater pwysig i rai a gymerodd ran yn ein hymchwil. Siaradodd rhieni sengl sy'n gweithio'n rhan-amser a rhieni sy'n ddi-waith am y problemau sy'n gysylltiedig â thalu rhent a chostau gofal plant, yn enwedig y rhai sydd wedi'u heffeithio gan y gosb tanfeddiannu. Gan nad ydynt yn gallu fforddio'r ddau, maent yn teimlo eu bod wedi'u dal mewn cylch parhaus o fethu â gallu dychwelyd i'r gwaith neu weithio oriau hirach.

Mae rhieni eraill sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor yn teimlo dan bwysau i weithio.

*"Ar y naill law rydw i'n cael fy ngwneud i deimlo fy mod i'n ceisio cael rhywbeth nad oes gen i hawl iddo. Rwy'n gwybod y baswn i ar fy ennill yn gweithio, does dim angen i neb ddweud hynny wrtha i, ond gyda chostau gofal plant dydw i ddim yn gallu fforddio gwneud, £10 yr awr a minnau'n cael trafferth bwydo 'mhlant fel mae hi."*

*"Dydw i ddim yn meddwl eu bod yn ystyried eich amgylchiadau. Maen nhw yn fy ngweld fel rhiant sengl, yn tybio nad ydw i am weithio, felly'n fy ngorfodi i wneud. Dydw i ddim fel yna. Rydw i am gael gweithio, ennill fy arian fy hun a thalu fy ffordd, a theimlo'n falch. Dydw i ddim yn gallu gweithio'n gorfforol. Pe bae gen i ddewis, byddwn i'n gwneud hynny, bob dydd, ond alla i ddim, does gen i ddim dewis."*

Mae un cyfranogwr anabl sy'n gwirfoddoli ddwywaith yr wythnos yn teimlo bellach ei bod yn cael ei chosbi am y gwaith gwirfoddol hwn gan ei fod yn cael ei ddefnyddio fel enghraifft ei bod yn 'ffit i weithio'.

Teimlai rhai pobl ifanc bod yn rhaid iddynt ddewis rhwng talu eu rhent a'u haddysg. Dywedodd un cyfranogwr ifanc y byddai'n hoffi dychwelyd i fyd addysg i gael gwell cymwysterau a'i helpu i gael swydd. Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried hyn yn opsiwn gan y gallai effeithio ar ei hawl i fudd-daliadau.

### *Effaith ar weithgareddau hamdden a hobïau*

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a hobïau wedi bod yn rhai o'r pethau cyntaf i'w haberthu wrth i incwm pobl ostwng. Dywedodd bron i dri chwarter y cyfranogwyr (73 y cant)[24] nad ydynt yn gallu fforddio cymdeithasu neu barhau gyda'u hobïau neu ddiddordebau bellach; roedd hyn yn cynnwys nofio, mynd i'r sinema neu gyfarfod ffrindiau. Mae hyn wedi arwain at lawer yn teimlo'n fwy unig, sy'n effeithio wedyn ar eu hiechyd meddwl hefyd.

*"Mae gadael y tŷ yn dod yn dipyn o achlysur, mae mynd ar y bws yn dipyn o achlysur. Mae rhannu bag o sglodion yn wledd i ni."*

*"Dydw i ddim yn gallu mynd allan, rydw i'n gaeth i'r tŷ fwy neu lai. Mae gen i bartner a dydw i ddim yn gallu gwneud dim gydag ef. Pan fydd gen i ychydig o arian dros ben, rwy'n ceisio coginio rhywbeth blasus i'r plant."*

[24] 36 o ymatebwyr

*“Fel bodau dynol, mae angen i ni gymdeithasu ac yn anffodus mae hyn yn mynd yn ddrutach bob gafael ac felly mae’n rhaid i ni anghofio am hynny.”*

Dywedodd cyfranogwyr eraill eu bod yn gadael y tŷ yn amlach. Ond nid er pleser, ond i helpu i arbed arian.

*“Dydw i ddim yn mynd allan o ddewis bellach. Rydyn ni’n mynd allan i arbed costau gwresogi.”*

*“Rydw i’n treulio rhai diwrnodau mewn caffi, gan fod prynu dwy baned o goffi mewn pum awr yn rhatach na gwresogi’r tŷ.”*

Mae ein canfyddiadau’n dangos bod y newidiadau i fudd-daliadau’n cael effaith negyddol yn bennaf ar sawl agwedd ar fywydau pobl hyd yma. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr bron iawn yn gallu darparu enghraifft o rywbeth cadarnhaol sydd wedi digwydd yn sgil y newidiadau. I’r rhai a roddodd gynnig arni, roedd yr enghreifftiau’n dueddol o fod yn fwy o dystiolaeth o’r mecanweithiau ymdopi y maent wedi gorfod eu defnyddio i’w helpu i reoli’r pontio yn hytrach na bod yn effaith wirioneddol ‘gadarnhaol’.

Mae’r effaith amlwg y mae’r newidiadau’n eu cael ar iechyd cyfranogwyr, yn feddyliol ac yn gorfforol, yn achos pryder penodol. Gall mwy o straen a gofid, bwyta’n wael, byw mewn cartrefi heb ddigon o wres, straen ar berthynas bersonol, ynghyd â diffyg cymdeithasu a bod yn llai actif, arwain at oblygiadau iechyd hirdymor i lawer o’r bobl y siaradwyd â nhw. Heblaw bod pobl yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt yn gynharach yn y broses, mae hyn yn debygol o arwain at ymyriadau mwy costus maes o law, gan roi pwysau ychwanegol ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd sydd eisoes dan bwysau sylweddol.

## Mecanwaith ymdopi ar gyfer rheoli'r newidiadau

Bydd gallu pobl i reoli effaith gronnol diwygio lles yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau unigol ac i ba raddau y maent yn derbyn cymorth i'w helpu i reoli'r pontio.

Fel y gwelwyd, mae'r newidiadau, yn enwedig gorfod byw ar lai o incwm, wedi effeithio ar bobl ar sawl lefel.

O ran sut maent yn ymdopi, yr argraff bennaf a geir yn ystod yr astudiaeth hon yw un o 'rygnu byw' yn hytrach na 'byw bywyd'. Mae yna ymdeimlad o orfod ymdopi am nad oes ganddynt ddewis arall.

*"Greddf pobl yw ceisio goroesi ynde? Mae'r Llywodraeth yn manteisio ar hynny – 'os ydyn ni'n cymryd £10 oddi arnyn nhw, beth yw'r ots, mi fyddan nhw'n ymdopi.' Byddan nhw'n goroesi gan fod pobl yn llwyddo i oroesi, ond pwy sydd am fyw yn y gwter?"*

Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr roi sgôr i'w hyder eu hunain o ran ymdopi â'r newidiadau i fudd-daliadau ar hyn o bryd - gyda '0' yn golygu dim hyder o gwbl a '10' yn golygu hyder llwyr. **3.6 oedd y sgôr gyfartalog** - gan awgrymu bod gan fwy o bobl ddiffyg hyder yn eu gallu i ymdopi â'r newidiadau na'r rhai a oedd yn teimlo'u bod yn ymdopi'n dda.

Mae'r bobl a gymrodd ran wedi defnyddio mecanweithiau ymdopi o bob math i'w helpu i reoli'r newidiadau. Y prif gamau y mae pobl yn eu cymryd yw lleihau'r gwariant ar agweddau eraill o'u bywydau fel bwyd, gwresogi eu cartrefi a phrynu eitemau hanfodol fel dillad.

*"Mae'n galed pan nad yw'ch arian yn talu am y pethau hanfodol hyd yn oed. Roeddwn i yn [archfarchnad adnabyddus] yn gynharach yn yr wythnos a gwelais wisg nos am 50% yn rhatach ar gyfer fy merch, ond er fy mod yn gwybod ei bod angen gwisg nos gan ei bod wedi tyfu'n ddiweddar, ac er mai dim ond punt neu ddwy oedd hi, roeddwn i'n gwybod na fyddwn i'n gallu ei fforddio. Gwnaeth hynny i mi sylweddoli pa mor wael yw pethau."*

Roedd bron i hanner y cyfranogwyr (48 y cant)[25] wedi torri lawr ar eu tanwydd i leihau eu biliau ynni. Roedd hyn yn cynnwys mynd heb wres a dŵr poeth, gwresogi un ystafell yn unig neu ddefnyddio'r gwres am gyfnod byr yn unig. I rai â chyflyrau meddygol penodol, gallai pethau fel hyn eu rhoi mewn perygl.

"*Dydyn ni ddim yn rhoi'r gwres ymlaen mwyach gan na allwn fforddio gwneud hynny. Mae gennym ni dân agored ac rydyn ni'n hel darnau o bren gan bobl rydyn ni'n eu 'nabod. Rydyn ni'n berwi'r tegell unwaith y diwrnod yn y bore ac yn berwi tegell ar y ffwrn nwy weddill yr amser i arbed trydan. Rydyn ni wedi edrych ar ein biliau ac wedi'u gostwng cymaint â phosib, heblaw'r dŵr, nad ydyn ni'n gallu ei roi ar fesurydd, felly'n methu ei gael yn rhatach."*

[25] 24 o ymatebwyr

Yn aml mae pobl yn aberthu eu hunain er mwyn bwydo eu plant a chynnal elfen o normalrwydd ar gyfer dibynyddion, er gwaethaf y pwysau ariannol ychwanegol - mae hyn yn bwysig iawn i bobl y mae gan eu plant anghenion cymorth ychwanegol.

*“Dim ond am ’chydig oriau’r dydd y bydd ein gwres ymlaen, hyd yn oed yn y gaeaf. Mae’n rhaid i ni fod mor gynnil â phosib ond dydyn ni ddim fel teuluoedd eraill, dyw ein mab (sydd ag awtistiaeth ddifrifol) ddim yn deall pethau, fell rydyn ni wedi ceisio cynnal ei ffordd o fyw drwy adael i’n ffordd o fyw ni waethygu.”*

*“Mae’n rhaid i mi gadw llygad ar bopeth. Os yw’r plant allan, dydw i ddim yn rhoi’r gwres ymlaen. Rwy’n treulio’r rhan fwyaf o’r amser yn oer a dweud y gwir.... mae’r rhan fwyaf o’u ffrindiau yn cael mynd allan i fwynhau eu hunain, dyw fy rhai i ddim gan nad oes gen i’r arian ar gyfer hynny. Mae’n ofnadwy gorfod cyfaddef ond ar ddiwedd y mis, bron bob mis, mae’n rhaid i mi fynd heb brydau bwyd er mwyn bwydo fy mhlant.”*

Fel rydym wedi’i glywed eisoes, er yr aberthau y mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau, mae llawer yn dal i fynd i ddyled.

*“Dwi’n gorfod torri lawr ar bethau cymaint â phosib ond rydw i’n dal i fynd i ddyled. Rydw i wedi dod i sylweddoli nad oes unrhyw beth y galla i ei wneud am hyn. Rwy’n ceisio meddwl am fy iechyd, ond dydyn nhw ddim yn poeni am hynny A dweud y gwir, byddai’n well pe bawn i’n farw, yna fydden nhw ddim yn gorfod talu a bydden i ddim yn rhan o’u hystadegau.”*

Mae rhai pobl anabl neu su’n byw â salwch hirdymor yn cael eu gorfodi i ddefnyddio’u lwfans byw i’r anabl i dalu rhent, sy’n arwain at ganlyniadau annisgwyl ychwanegol:

*“Mae’r cyngor yn dweud bellach gan fy mod wedi datgan hyn a fy mod yn ei ddefnyddio [lwfans byw i’r anabl] ar gyfer pethau fel y ‘dreth ystafell wely’, nad ydw i’n ei ddefnyddio at y dibenion y bwriadwyd ef ar ei gyfer, yna mae’n incwm. Byddai’n well gen i ei wario ar dacsis i deithio o gwmpas gan mai dyna sydd ei angen fwyaf arna i, ond os nad ydw i’n talu’r ‘dreth ystafell wely’, bydda i’n cael fy nhroi allan, does dim amheuaeth am hynny.”*

Mae rhai cyfranogwyr yn credu bod diddymu’r benthyciadau argyfwng a’r grantiau gofal cymunedol (o fis Ebrill 2013 ymlaen) wedi gwaethygu eu sefyllfa. Mae mathau tebyg o gymorth grant ar gael i bobl mewn argyfwng neu sy’n dioddef caledi penodol gan Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru[26], ond mae’r cynllun yn cael ei weithredu’n wahanol. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn wedi derbyn dim o’r gronfa hon.

Fodd bynnag, amlygodd gwaith ymchwil ychwanegol a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru ar ddechrau 2014 (nid yw wedi’i gyhoeddi eto), gyda darpar ddefnyddwyr y Gronfa Cymorth Dewisol a chynghorwyr sy’n gweithio gyda darpar ddefnyddwyr y gronfa, y pwysigrwydd a’r gwerth enfawr y mae’r rhan fwyaf o ymatebwyr yn ei roi ar gael system cymorth argyfwng Cymru gyfan, fel y Gronfa Cymorth Dewisol.

[26] Gweler Atodiad 1 am fanylion

Drwy gydol yr astudiaeth hon, clywsom dro ar ôl tro sut mae pobl yn torri lawr ar anghenion hollbwysig eraill fel bwyd a gwresogi, er mwyn talu rhent a gostwng biliau eraill. Mae'r canlyniadau posibl y gallai hyn eu cael ar iechyd cyfranogwyr yn amlwg ac yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan newidiadau lles yn ymwybodol o'r cymorth ariannol amrywiol a allai fod ar gael iddynt i'w helpu i reoli costau, gan gynnwys cyngor ar ostwng biliau ynni drwy well effeithlonrwydd ynni, y Disgownt Cartref Cynnes[27] neu drwy newid cyflenwyr ynni.

### Astudiaeth achos dau

Mae Hannah yn rhiant sengl nad yw'n gweithio sydd â chyflwr iechyd hirdymor. Mae'r newidiadau niferus i'r lwfans cyflogaeth a chymorth, y gronfa gymdeithasol a chyflwyniad y gosb tanfeddiannu wedi effeithio arni. Mae ei phrofiad yn amlygu'r problemau sy'n wynebu'r rhai sy'n dioddef cyflyrau iechyd hirdymor nad ydynt yn gallu ymdopi â phroblemau budd-daliadau cymhleth o reidrwydd.

Daeth y gosb tanfeddiannu i rym wrth i Hannah ddygymod â diagnosis newydd o sglerosis ymledol. Oherwydd ei phroblemau iechyd, roedd wedi rhoi'r gorau i'w swydd gan nad oedd yn gallu ymdopi'n gorfforol â'i gwaith. Fodd bynnag, er i'w meddyg teulu ac arbenigwyr yn yr ysbyty ei chynghori nad oedd yn ffit i weithio, pennodd asesiad meddygol ATOS ei bod yn 'ffit i weithio'. Gwrth-drowyd y penderfyniad hwn yn ddiweddarach mewn tribiwnlys, ond roedd y straen ychwanegol o orfod apelio mor ddrwg iddi ddweud "nad oedd am fod yma rhagor". Gwaethygwyd effaith ariannol atal ei lwfans cyflogaeth a chymorth yn ystod y broses ailystyried gorfodol gan nad oedd yn gallu cael mynediad i fenthyciad argyfwng mwyach. Roedd y gostyngiad yn ei budd-dal tai oherwydd y gosb tanfeddiannu yn golygu ei bod mewn perygl o fod yn ddigartref pan roedd yn fregus iawn.

Golygai'r cynnydd yn y didyniadau ar gyfer rhai nad oedd yn ddibynnol o'r budd-dal tai na ellid datrys ei phroblem drwy i'w merch ddychwelyd i'r eiddo a chyfrannu at incwm yr aelwyd.

[27] Cynllun yw'r Disgownt Cartref Cynnes a gyllidir gan gyflenwyr ynni i ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol i ddefnyddwyr ynni mewn sefyllfaoedd bregus. Ar gyfer y flwyddyn bresennol (2014/15), mae'r rhai sy'n gymwys am gymorth yn derbyn ad-daliad blynyddol o £140 ar eu bil trydan. Dim ond cyflenwyr sydd â 250,000 neu fwy o ddefnyddwyr sy'n gorfod cynnig y Disgownt Cartref Cynnes.

## Cosbau ac oediadau yn y system

Mae rhai o'r problemau mwyaf cyffredin y mae pobl yn gofyn am gymorth Canolfannau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru yn eu cylch yn ymwneud ag apelio yn erbyn penderfyniadau budd-daliadau, anawsterau sy'n gysylltiedig ag atal neu newid budd-daliadau, a phroblemau wrth wneud cais am fudd-daliadau newydd. Ar adegau o'r fath, mae cleientiaid yn ceisio cael dau ben llinyn ynghyd heb fawr ddim incwm, os o gwbl.

Fel yr eglurwyd yn y bennod flaenorol, yn y 18 mis diwethaf mae canolfannau ledled Cymru a Lloegr wedi gweld ymholiadau am gosbau yn cynyddu'r sylweddol (i fyny 60 y cant).

Mae'r cynnydd yn y cyfnod cosbi lleiaf o wythnos i bedair wythnos yn debygol o fod yn ffactor allweddol yn y cynnydd.

Mae'r rhesymau cyffredin a roddir am gosbau yn cynnwys methu cydymffurfio â Chyfarwyddyd Ceisiwr Gwaith[28] a methu apwyntiadau. Ni ddylai hawlwyr gael eu cosbi os ydynt yn gallu dangos rheswm da pam na wnaethant gymryd rhan mewn gweithgarwch penodol neu pam na allent wneud hynny. Mae'n rhaid i ganolfannau wirio a yw'r gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn.

Yn y gwaith ymchwil hwn, rydym eisoes wedi gweld bod gallu rhai cyfranogwyr i chwilio am waith yn cael ei gyfaddawdu'n sylweddol o ganlyniad i'w hincwm is yn sgil y newidiadau i fudd-daliadau. Dengys ein hymchwil ddiweddaraf a thystiolaeth gan gynghorwyr canolfannau bod y sefyllfa yn fwy eithafol ymhlith pobl sydd wedi'u cosbi. Mewn achosion o'r fath, mae pobl yn treulio llawer o amser yn chwilio am ddulliau amgen o dalu am eitemau hanfodol, fel bwyd a gwresogi, sy'n golygu nad oes ganddynt fawr ddim amser ar ôl i chwilio am waith.

*"Cymerodd 24 awr iddyn nhw roi'r gorau i dalu, ond pedwar mis i ddechrau talu eto. Dydyn nhw ddim yn meddwl am hynny. Maen nhw'n ei atal eich unig incwm ac yn disgwyl i chi ddal ati. Rydych chi'n cael eich trin fel sbwriel."*

Wrth ystyried y problemau a welir gan ganolfannau, mae oedi wrth benderfynu ar fudd-daliadau, er enghraifft ar ôl apêl neu wrth gyflwyno budd-daliadau newydd fel y taliad annibyniaeth bersonol, wedi cynyddu'r caledi i lawer o hawlwyr a gymrodd ran yn ein hymchwil hefyd.

Siaradodd nifer o bobl am eu profiadau o fod heb unrhyw incwm oherwydd oedi yn eu ceisiadau am fudd-daliadau. Mae hyn wedyn wedi cael effaith fawr ar eu perthynas bersonol ag eraill ac ar eu hiechyd.

Mae un cyfranogwr wedi bod yn disgwyl am rai misoedd am benderfyniad ar ei chais am y taliad annibyniaeth bersonol ar ôl cael strôc. Mae bod heb incwm am y misoedd hyn yn golygu nad yw wedi gallu gofalu am ei thad oedrannus, byw mewn llety rhent anaddas i'w anghenion a dibynnu ar roddion bwyd.

[28] Cyfarwyddyd ffurfiol yw hwn i hawlwyr lwfans ceisio gwaith gymryd camau penodol i'w helpu i ddod o hyd i waith, er enghraifft, mynychu cwrs penodol, ymateb i hysbyseb penodol neu gymryd rhan mewn 'sesiwn yn ôl i'r gwaith'.

*“Cyn gynted ag y gadewais yr ysbyty, cyflwynais gais am y taliad annibyniaeth b ersonol, ond rydym ni’n dal i aros. Dydw i ddim wedi clywed dim ers mis Hydref. Dylwn i glywed rhywbeth o fewn chwe wythnos, ond heb glywed smic ers pum mis. Rwy’n rhentu’n breifat ond dyw’r eiddo ddim yn ddigonol gan fod llawer o risiau. Pe bai tân, byddwn i’n llosgi i farwolaeth.”*

Dywedodd cyfranogwyr eraill nad ydyn nhw’n gallu fforddio talu eu gofalwyr bellach (sydd yn gwrthod helpu oherwydd nad ydyn nhw wedi derbyn cyflog) na chael mynediad i driniaeth ddeintyddol (sy’n cael effaith ganlyniadol ar eu hiechyd corfforol).

Yn dilyn oedi gyda phenderfyniadau am fudd-daliadau neu gosbau, dywedodd nifer o bobl bod eu harian wedi’i ôl-ddyddio ar ôl i’w hachosion gael eu datrys yn llwyddiannus. Er ein bod yn croesawu hyn, roeddent yn aml yn teimlo’u bod wedi cael eu gadael heb unrhyw gymorth i helpu gyda phroblemau sydd wedi pentyrru yn ystod y cyfnod heb incwm, fel dyledion yn cynyddu. Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd darparu cyngor mwy cyfannol i bobl sy’n cael eu heffeithio gan oedi cyn derbyn budd-daliadau a chosbau, gan gynnwys cael cynnig cyngor ar ddyledion os oes ei angen. Pan ofynnwyd iddynt beth yn eu barn nhw yw’r prif reswm am yr oedi wrth benderfynu ar fudd-daliadau, mae’r rhan fwyaf o bobl sy’n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn teimlo ei fod oherwydd y diffyg cyfathrebu rhwng gwasanaethau allweddol – sef meddygon teulu a’r cwmni/cwmnïau  sy’n gyfrifol am gynnal asesiadau gallu i weithio[29] yn bennaf.

*“Maen nhw’n dweud fy mod i’n ffit i weithio, ond mae’r meddyg yn dweud yn wahanol - ond dydyn nhw ddim yn poeni. Rydw i mewn tipyn o dwll ar y funud ac mae hawlio lwfans ceisio gwaith yn fy nychryn gan fy mod i’n cael trafferth cerdded o gwmpas, sut fyddwn i’n mynd i gyfweliadau? Cafodd fy arian ei atal am ddau fis y llynedd wrth iddyn nhw newid pethau ac roedd hi mor anodd arna i, ond dydyn nhw ddim yn poeni, maen nhw’n dweud y bydd yr arian yn cael ei ôl-ddyddio ond dyw hynny ddim yn gysur.”*

*“Maen nhw’n anwybyddu’r meddyg teulu a llawfeddygon sbinol arbenigol. Does dim dwywaith bod ganddyn nhw fwy o wybodaeth am gyflyrau meddygol. Ffoniodd yr Adran Gwaith a Phensiynau i ddweud fy mod yn ‘ffit i weithio’ a dweud, ‘rydyn ni gyd yn dioddef rhywfaint o boen, felly ein cyngor i chi yw hawlio lwfans ceisio gwaith cyn gynted â phosib’- roedd hynny’n brofiad diraddiol a nawddoglyd a minnau mewn poen a phrin yn gallu cerdded ambell ddiwrnod.”*

Mae’r dystiolaeth gan ganolfannau’n cadarnhau bod y system gyfredol ar gyfer cynnal asesiadau gallu i weithio yn fethiant i filoedd o bobl sy’n byw ag anabledd neu gyflwr hirdymor. Mae hyn yn cael ei gadarnhau gan ffigurau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy’n dangos bod oddeutu 40% o apeliadau yn erbyn asesiadau gallu i weithio wedi’u cadarnhau ers 2010. Mae Cyngor ar Bopeth yn credu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod asesiadau yn deg, yn gyson ac yn gywir y tro cyntaf. Ar hyn o bryd, mae’n hymgyrch ‘Ffit i weithio’ yn galw am gyfres o newidiadau yn y broses[30].

[29] Hyd yn ddiweddar, ATOS Healthcare sydd wedi bod â’r contract i gynnal asesiadau gallu i weithio y lwfans cyflogaeth a chymorth. Capita sydd â’r contract i gynnal asesiadau gallu i weithio y taliad annibyniaeth bersonol.
[30] http://www.citizensadvice.org.uk/index/campaigns/current_campaigns/fitforwork.htm

## Portread y wasg o hawlwyr budd-daliadau

Yn ddiweddar, bu cynnydd sylweddol yn y sylw negyddol a roddir yn y wasg i bobl sy'n hawlio budd-daliadau. Yn aml iawn, mae'r bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi cael eu disgrifio'n 'bobl sydd am gael popeth am ddim','yn bobl ddiog', yn 'segur' ac yn 'osgoi gwaith'. Mae ein profiad yn dangos nad yw hyn yn ddarlun teg o bell ffordd o'r degau o filoedd o gleientiaid y mae Cyngor ar Bopeth yn eu cynorthwyo ledled Cymru a Lloegr bob dydd.

Mae nifer o gyfranogwyr yn teimlo bod y portread hwn yn stigmateiddio hawlwyr budd-daliadau. Maent yn credu bod hwn yn safbwynt negyddol ac annheg ac nad yw'n adlewyrchu trafferthion dyddiol y mae mwyafrif y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn eu hwynebu er mwyn cael dau ben llinyn ynghyd. Maent o'r farn hefyd ei fod yn creu rhaniad mwy rhwng pobl sydd yn gweithio a'r rhai nad ydynt yn gweithio.

*"…..Rydw i'n credu na ddylai'r cyfryngau gael yr hawl i bortreadu pobl yn y ffordd yna. Dydyn nhw ddim yn adrodd ar yr effaith ar bobl, maen nhw'n tynnu sylw at y ffaith na ddylech chi gael mwy o arian drwy'r system les na all pobl eraill ei ennill ac wedyn maen nhw'n dweud ein bod i gyd yr un fath. Dyw hyn ddim yn rhoi argraff dda ohonom ni; dydyn nhw ddim yn deall yr achosion unigol. Dyw pobl ddim yn mynd allan a chael y clefyd niwronau motor yn fwriadol, neu sglerosis ymledol er mwyn cael popeth am ddim. Cael y clefyd y maen nhw, dydyn nhw ddim yn ei ddewis o."*

Yr unig beth y mae'r sylw negyddol yn y wasg wedi'i wneud yw gwaethygu effaith y newidiadau diweddar i fudd-daliadau ac mae wedi effeithio ar iechyd meddwl a chorfforol pobl. Mae llawer o bobl a gymerodd ran yn teimlo cywilydd eu bod yn eu sefyllfa gyfredol. Mae rhai wedi dioddef cam-drin corfforol hyd yn oed.

*"Mae wedi gwaethygu ers propaganda'r Llywodraeth am bobl sy'n ymdrechu'n galed a phobl sy'n osgoi gwaith. Rydw i wedi cael fy ngham-drin yn y stryd a'r siopau, mae pobl wedi dweud wrthyf fy mod yn dda i ddim, ac mae pobl wedi poeri arna' i hyd yn oed. Dydw i ddim yn mynd allan rhyw lawer erbyn hyn, dim ond i fynychu'r cyfarfodydd gyda'r pwyllgorau a'r grwpiau amrywiol rydw i'n perthyn iddyn nhw."*

Er mwyn gwneud iawn am yr holl sylw negyddol mae'r cyfranogwyr yn credu y dylai'r cyfryngau wneud mwy i ddangos sut beth yw byw ar fudd-daliadau mewn gwirionedd a rhoi darlun cywiro a realistig o hynny. Maen nhw am gael portread gonest sy'n dangos yr holl ymdrech y mae pobl yn ei gwneud i chwilio am swydd, yr anawsterau y mae pobl sy'n gweithio ond sydd ar incwm isel yn eu hwynebu a realiti bywyd pobl anabl nad ydynt yn gallu gweithio. Mae pobl am weld diwedd ar y stigma:

*"Fy ngwaith yn gofalu am fy mab yw'r gwaith anoddaf yn y byd. Petai'r bobl hyn yn dod yma i ofalu amdano bydden nhw'n newid eu polisïau'r diwrnod canlynol. Mae gen' i deledu sy'n 26 oed, does gennym ni ddim Sky TV, does gennym ni ddim byd drudfawr. Mae ein bywyd ni'n cylchdroi o amgylch ei ofal e. Yna rydym ni'n cael ein rhoi yn yr un categori â phawb arall a chael ein cyhuddo o ddisgwyl cael popeth am ddim. Beth ydw i'n mynnu ei gael am ddim? Rydw i'n arbed arian i'r Llywodraeth bob blwyddyn ac yna maen nhw'n gwneud toriadau i'r arian sydd ei angen arnom ni, nid yw'n deg."*

## Ymwybyddiaeth o newidiadau i fudd-daliadau

Nid oedd gan y mwyafrif o bobl y buom yn siarad nhw fawr ddim dealltwriaeth o’r newidiadau os o gwbl. Mewn llawer o achosion, nid oedd pobl wedi cael gwybod am y newidiadau nes iddynt dderbyn llythyr yn eu hysbysu o’r camau oedd yn cael eu rhoi ar waith. Roedd y ffaith nad oeddent yn gwybod am y newidiadau yn golygu nad oedd ganddynt fawr o amser i baratoi am yr hyn oedd i ddod. Nid yw rhai eraill yn deall yn llwyr y myrdd o newidiadau sy’n dod i’w rhan.

*“Rydych chi’n disgwyl a disgwyl am yr amlen frown yna. Rydych chi’n byw mewn ofn.”*

Mae hyd yn oed y rhai sy’n ymwybodol o’r newidiadau yn cael trafferth weithiau i ddeall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywydau.

*“Er fy mod yn ymwybodol o’r newidiadau a oedd ar y gweill, roedd faint o effaith a gawson nhw ar fy mywyd yn dal i fod yn sioc.”*

Mae nifer o bobl yn teimlo bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o’r newidiadau cyfredol. Ar y cyfan, mae’r rhain yn bobl sydd mewn cysylltiad eisoes â gwasanaethau cymorth neu grwpiau cymunedol sydd eisoes yn bodoli sy’n eu galluogi i gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau lles a’r dewisiadau o ran cymorth. Roedd cyfranogwyr eraill wedi dysgu am y newidiadau drwy gymdogion neu drwy sylw yn y cyfryngau. Nid yw bod yn ymwybodol o’r hyn sy’n digwydd neu’r hyn sydd i ddigwydd yn cael ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol bob amser. Weithiau mae pobl yn teimlo bod gwybodaeth o’r fath yn ychwanegu at deimladau o bryder am y dyfodol neu’n ennyn y teimladau hynny.

Gwelsom enghreifftiau o arfer da lle mae landlordiaid cymdeithasol yn mynd ati i ymweld â thenantiaid gartref er mwyn egluro’r newidiadau i fudd-daliadau, i helpu gyda cheisiadau ac i roi cyngor ar ddewisiadau. Er enghraifft, penderfynodd un gymdeithas tai gynnal cyfarfodydd agored gan wahodd siaradwyr i siarad am Undebau Credyd a mathau eraill o gymorth er mwyn helpu tenantiaid. Gan amlaf mae mentrau o’r fath yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol a chefnogol iawn.

Fodd bynnag, roedd achosion hefyd lle’r oedd landlordiaid ac asiantaethau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod yn llai parod i helpu. Roedd rhai cyfranogwyr wedi cael gwybodaeth anghyson gan arwain at ddryswch a llai o amser i wneud cynlluniau wrth gefn. Nid oedd eraill yn ymwybodol o’r ffaith y gallai cymorth fod ar gael iddynt fel taliadau tai yn ôl disgresiwn[31]. Mae llawer o bobl wedi gorfod bod yn rhagweithiol a mynd ati eu hunain i chwilio am wybodaeth am y newidiadau i fudd-daliadau a’r cymorth sydd ar gael.

[31] Mae taliadau tai yn ôl disgresiwn ar gael gan awdurdodau lleol er mwyn darparu cymorth ychwanegol i hawlwyr budd-daliadau tai sydd yn cael trafferth talu eu rhent, gan gynnwys os yw hyn oherwydd cosb tanfeddiannu. Fe’u bwriedir fel ateb tymor byr a’r awdurdod lleol dan sylw sy’n penderfynu faint y gellir ei hawlio a pha mor aml.

*"Roeddem ni'n ymwybodol, i ryw raddau, bod y dreth ystafell wely ar y gweill oherwydd bod menyw o'r gymdeithas tai wedi'n ffonio i'n hysbysu. Dywedodd na fyddai'r dreth ystafell wely yn effeithio arnom ni gan ein bod yn byw mewn tŷ wedi'i addasu felly gadawsom bethau i fod ac nid oeddem ni'n poeni. Yna ym mis Mai neu fis Mehefin, roedd angen ffonio'r Adran fudd-daliadau Tai am fater arall ac fe'n hysbyswyd bod ein budd-dal wedi'i ostwng 25% gan fod gennym ddwy ystafell wely ychwanegol. Fe wnaethom ni gwyno wrth y gymdeithas tai am y cyngor gwael a gawsom ond roedden nhw'n gwadu'n gyfan gwbl eu bod yn gwybod unrhyw beth am hyn.*"

*"Ni chefais fy hysbysu o'r newidiadau ac ni chefais wybod am unrhyw gymorth a oedd ar gael, roedd yn rhaid i mi wneud popeth fy hun. Ni ddywedodd fy awdurdod lleol wrthyf am daliadau tai yn ôl disgresiwn y gallaswn fod wedi'u hawlio er mwyn gwneud pethau'n haws."*

Roedd un unigolyn ifanc â phroblemau iechyd meddwl wedi gwneud cais am lwfans ceiswyr gwaith heb sylweddoli y gallasai fod wedi hawlio lwfans cyflogaeth a chymorth oherwydd ei gyflwr. Ar ôl derbyn cosbau rheolaidd gofynnodd am gyngor gan ymgeisio'n llwyddiannus am lwfans cyflogaeth a chymorth ym mis Ionawr eleni. Mae'n credu petai wedi cael mwy o wybodaeth neu gyngor ar y cychwyn, byddai wedi gallu ymgeisio am lwfans cyflogaeth a chymorth yn gynt gan arbed llawer iawn o boen meddwl a chosbau.

*"Roeddwn i'n cael fy nghosbi'n barhaus. Roedden nhw'n dweud nad oeddwn i'n chwilio am waith yn ddigon caled neu nad oeddwn i'n nodi digon o fanylion. Roeddwn i wrthi'n ddiwyd yn chwilio am swydd."*

*Newidiadau yn y dyfodol*

Roedd y gwaith ymchwil yn ceisio sefydlu hefyd i ba raddau y mae cyfranogwyr yn ymwybodol o'r newidiadau i'r system fudd-daliadau yn y dyfodol. Ychydig iawn sy'n meddu ar wybodaeth dda am gredyd cynhwysol.

Ar ôl rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr am yr hyn fydd y newidiadau'n ei olygu, o ran cyflwyno credyd cynhwysol, ac a *allai* ei olygu, mewn perthynas â chymorth gyda'r dreth gyngor yng Nghymru yn y dyfodol, gofynnwyd iddynt roi sgôr ar gyfer yr hyder yn eu gallu i ymdopi â/rheoli'r newidiadau hyn (lle'r oedd '0' yn golygu dim hyder o gwbl a lle'r oedd '10' yn golygu yn gwbl hyderus). **Y sgôr cyfartalog oedd 3.2.**

Fel yr achos blaenorol, (pan ofynnwyd iddynt roi sgôr ar gyfer eu gallu i ymdopi â'r newidiadau presennol) ar y cyfan mae pobl sydd yn rhan o grwpiau cymorth neu sydd â gweithiwr cymorth eisoes yn teimlo'n fwy ymwybodol ac yn gallu ymdopi fwy â'r newidiadau i fudd-daliadau sydd i'w cyflwyno yn y dyfodol na'r rhai nad ydynt yn derbyn cymorth ar hyn o bryd.

Roedd yn amlwg iawn bod angen mwy o wybodaeth am yr hyn y gallant ddisgwyl yn y dyfodol. Mae rhai yn teimlo bod ganddynt ddigon i ymdopi ag ef yn barod a'r unig beth yr oedd y syniad o ragor o newidiadau yn y dyfodol yn ei wneud oedd ychwanegu at eu pryderon.

*“Mae angen i mi wybod beth sy’n digwydd er fy mwyn i a’m mhlant. A dweud y gwir, mae’r newidiadau yn fy nychryn, fy nychryn yn llwyr. Dim ond fi a’m mhlant sydd yma. Dydw i ddim yn hyderus am y newidiadau. Felly, rydw i wedi bod yn prynu bwyd ychwanegol a’i storio, ond ni fydd yn para am byth.”*

*“Mae’r dyfodol yn llwm, ac rydw i’n ceisio byw o ddydd i ddydd a pheidio â meddwl am y sefyllfa.”*

Mae nifer o bobl yn gobeithio bod yn ôl mewn gwaith erbyn y bydd y newidiadau yn cael eu rhoi ar waith. Mae pobl eraill, yn enwedig pobl ag anableddau neu sy’n byw gyda chyflwr iechyd tymor hir, yn bryderus iawn am eu gallu i ymdopi yn y dyfodol gan eu bod yn credu bod eu sefyllfa economaidd yn annhebygol iawn o wella.

*“Ni waeth beth rydw i’n ei wneud, does dim ennill. Pan fethais fy apêl cefais sioc fawr. Mae gen’ i nifer o gyflyrau, prin y gallaf gerdded, ac maen nhw am i mi weithio. Pan gefais y penderfyniad cefais bwl o banig. Mae’r straen yn dweud arna’ i a bellach mae gen’ i fwy o bryderon, pryderon am arian, am orfod gweithio pan na allaf, ac am wneud fy hun yn ddigartref.”*

Roedd cyfranogwyr iau, yn benodol, yn mynegi pryder am y broses o gyflwyno’r credyd cynhwysol, yn enwedig y newid i daliadau misol. Mae rhai pobl ifanc yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o sgiliau cyllidebu i reoli eu harian yn effeithiol dros gyfnod o fis. Maen nhw’n poeni y gallai un taliad misol mwy eu harwain at orwario’n hawdd gan eu gadael heb unrhyw arian tua diwedd y mis.

*“Fy mhrif bryder ydy’r rhent – rydw i wedi bod mewn perygl o gael fy nhroi allan ac rydw i’n gwybod mai dyma fyddai’r perygl mwyaf wrth i mi drin a thrafod arian.”*

*“Rydw i’n bryderus iawn y bydd fy ngorddrafft yn ei lyncu, ac na fydd gen’ i ddim byd i fyw arno. A dweud y gwir, rydych chi’n ddiflas drwy’r amser ac os oes rhywun yn rhoi arian i chi, rydych chi’n meddwl bod y Nadolig wedi cyrraedd, ac yn anghofio am y rhent yr wythnos honno ac yn mynd allan i wario er mwyn ceisio codi’ch calon.”*

Mae hyn yn dangos y gall fod angen penodol i gynnig cefnogaeth cyllidebu personol i hawlwyr budd-daliadau iau cyn pontio i gredyd cynhwysol, yn enwedig y rhai nad ydynt, o reidrwydd, wedi cael y cyfle i ddatblygu sgiliau rheoli arian gartref neu yn yr ysgol.

Er ein bod wedi gweld enghreifftiau o ymyrraeth gadarnhaol gan landlordiaid cymdeithasol er mwyn helpu eu tenantiaid i reoli’r newidiadau i fudd-daliadau, nid oedd hyn yn gyson ar draws Cymru. Mae graddfa’r diwygiad lles yn golygu bod awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn gorfod addasu i newidiadau sylweddol yn amgylchiadau llawer o’u tenantiaid a’u preswylwyr, nas gwelwyd ei debyg erioed o’r blaen. Mae eu rôl yn hanfodol o ran helpu pobl i reoli’r newidiadau.

Mae'n hollbwysig felly bod pawb yn dysgu gwersi gan ei gilydd a bod arferion da yn cael eu rhannu er mwyn sicrhau tegwch a chyfiawnder wrth ddarparu cymorth nawr ac yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae prosiect '*Making Welfare Work Locally*' Cyngor ar Bopeth yn ceisio helpu gyda'r broses hon drwy nodi a dangos enghreifftiau o arferion da awdurdodau lleol a chymdeithasau tai mewn nifer o feysydd allweddol sy'n ymwneud â diwygio lles[32].

## Cyfathrebu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau eraill

Mae cyfathrebu effeithiol yn hanfodol i unrhyw raglen o newidiadau sylweddol. Er gwaethaf y ffaith ein bod yn gweld rhai o'r newidiadau mwyaf erioed i system les y DU, drwy gydol yr astudiaeth hon daeth yn amlwg mai ychydig iawn roedd y mwyafrif o gyfranogwyr yn ei wybod am y newidiadau diweddar i'w budd-daliadau cyn iddynt gael eu rhoi ar waith. Hefyd, roedd gwybodaeth pobl am y newidiadau sydd i ddod hyd yn oed yn llai.

Gall ymdopi ag unrhyw fath o newid sylweddol yn ein bywydau fod yn anodd. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, gall cael gwybodaeth ymlaen llaw fod rhywbeth yn mynd i ddigwydd ein helpu i baratoi, gan roi amser i ni ofyn am gymorth a gwneud cynlluniau i ymdopi â'r hyn y bydd y newid hwnnw yn ei olygu i'n bywydau ni.

Fel y mae'r gwaith ymchwil hwn yn ei ddangos, os yw'r newid yn annisgwyl ac os yw'r wybodaeth yn aneglur neu'n dameidiog, bydd y broses o bontio hyd yn oed yn anoddach a gall arwain at broblemau pellach yn ddiweddarach. Nododd nifer o gyfranogwyr eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddryslyd neu anghyson gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

*"Mae angen gwella a symleiddio'r cyfathrebu. Ar un achlysur, derbyniais bum llythyr gwahanol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn un diwrnod, a phob un yn gwrthddweud y llall. Gan fod yr un dyddiad ar bob un roedd yn amhosibl gwybod pa un oedd y mwyaf cywir."*

*"Rydw i am gael mwy o wybodaeth gywir. Ofn yw hyn a allai'n hwynebu yw'r broblem, a cheisio ymdopi â hynny. Bydd yr holl newidiadau hyn yn effeithio arnom ni ac rydw i'n un sy'n poeni'n arw am bethau."*

Pan ofynnwyd sut hoffent dderbyn gwybodaeth yn y dyfodol, mae'n ddealladwy bod pobl am i wybodaeth am newidiadau'r dyfodol fod yn bersonol, yn gywir, yn amserol ac mewn iaith syml. Maen nhw'n teimlo hefyd bod angen gwneud mwy i wella'r cyfathrebu rhwng gwahanol asiantaethau a gwasanaethau gan gynnwys Canolfan Byd Gwaith, awdurdodau lleol, landlordiaid a meddygon teulu.

*"Rydw i'n gofyn am ddadansoddiad o'm budd-daliadau a'r hyn mae gen' i hawl iddo, ac rydych chi'n cael rhyw lythyr arwynebol cyffredinol. Yr unig beth rydw i am wybod ydy beth alla i hawlio, beth rydw i'n ei gael ac yna galla' i wneud cynlluniau."*

[32] Mae rhagor o fanylion ar gael yn http://www.citizensadvice.org.uk/index/policy/welfareproject.htm

*“Rydw i am gael gwell cysylltiadau .. ar hyn o bryd ‘does neb yn siarad â’i gilydd a ni sy’n gorfod ceisio llenwi’r bylchau. Byddai bywyd yn haws petai nhw’n cydweithio a siarad â llais cytûn yn hytrach na chlywed gwahanol bethau gan wahanol bobl drwy’r amser.”*

Mae’r rhai sy’n byw ag anabledd neu salwch/cyflwr tymor hir yn teimlo hefyd nad yw rhai asiantaethau’n deall eu hamgylchiadau’n llwyr, ac mai ychydig o sylw sy’n cael ei roi i’w sefyllfa nhw, yn enwedig yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd un cyfranogwr dall wedi cael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ei hysbysu o newidiadau i’r lwfans cyflogaeth a chymorth. Nid oedd y llythyr mewn fformat hygyrch felly nid oedd modd iddi ddarllen y wybodaeth a ddarparwyd.

Mae llawer o’r cyfranogwyr hyn yn teimlo y gellid gwneud mwy i sicrhau bod hawlwyr yn cael eu trin gydag empathi a bod gan bawb o’r staff well dealltwriaeth o rai o’r materion mae pobl yn eu hwynebu. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw anghenion cymorth ychwanegol a allai fod ganddynt.

*“Mae’n ymddangos nad oes unrhyw ddealltwriaeth o faterion iechyd meddwl a sut gall y materion dryslyd hyn wneud i bobl deimlo. O ’mhrofiad i, mae agwedd staff yr Adran Gwaith a Phensiynau yn warthus; dydyn nhw ddim yn ymdrin â materion yn sensitif. Pan oedd fy sefyllfa ar ei gwaethaf, roeddwn i wir ofn yr hyn oedd yn digwydd a cheisiais egluro hyn wrth yr aelod staff a oedd wedi ffonio ynglŷn â’r ffaith bod fy arian yn dod i ben oherwydd fy mod wedi methu’r prawf meddygol. Gofynnais beth ddylwn i ei wneud nesaf, a’i ateb oedd ‘Nid fy mhroblem i yw honno’. Allai ddim dweud wrthych chi sut deimlad oedd hynny.”*

*“Rydw i’n teimlo fel petawn i mewn twll ac mae angen cymorth arnaf i ddod allan ohono. Oherwydd fy salwch, dyw cael swydd a mynd allan i weithio bob dydd ddim yn fater hawdd. Rydw i angen y cymorth ychwanegol hwnnw i ddod o hyd i swydd sy’n gallu ymdopi â’m salwch.”*

Mae’r gwaith ymchwil hwn wedi tynnu sylw at fethiannau sylweddol yn y broses gyfathrebu rhwng rhai cyfranogwyr ac asiantaethau allweddol, yn enwedig yr Adran Gwaith a Phensiynau. Gan nad yw credyd cynhwysol, un o’r diwygiadau mwyaf wedi’i roi ar waith hyd yn hyn, mae’n hanfodol bod gan y mecanweithiau sy’n cael eu datblygu i gefnogi’r broses o bontio i’r cynllun credyd cynhwysol, yn benodol y Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol (LSSF)[33], ddigon o adnoddau a’i fod yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion hawlwyr.

[33] Gweler Atodiad 1 am fanylion

## Cymorth heddiw ac yfory

Mae darparu cyngor wedi cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl, drwy leihau straen a phryder, atal perthynas ag eraill rhag chwalu, hybu cyflogaeth a grymuso pobl i wneud newidiadau cadarnhaol ehangach yn eu bywydau [34]. Yn benodol, mae ymyrraeth gynnar ar adegau hanfodol ym mywydau pobl yn helpu i atal problemau rhag datblygu neu'n atal problemau presennol rhag gwaethygu a'r canlyniadau'n troi'n fwy difrifol.

Gall cyngor ddod â manteision ariannol sylweddol i bobl hefyd. Yn 2012/13 roedd y manteision ariannol ar gyfer cleientiaid yn sgil cyngor ar gredydau treth a lles a ddarparwyd gan Cyngor ar Bopeth ledled Cymru a Lloegr yn £280 miliwn[35]. Mae cyngor o'r fath yn cynnwys helpu pobl i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo, i apelio yn erbyn penderfyniadau neu i gywiro camgymeriadau mewn perthynas â budd-daliadau. Gall hyn arwain at gyfandaliadau neu gynnydd mewn budd-daliadau a mathau eraill o gynnydd mewn incwm.

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn tynnu sylw at werth derbyn cyngor a chymorth ar adeg briodol. Mae'r rhai sy'n derbyn cymorth ar hyn o bryd yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well, yn gyffredinol, â'r newidiadau presennol mewn budd-daliadau ac yn fwy hyderus yn eu gallu i reoli newidiadau yn y dyfodol, o gymharu â'r rhai sydd heb gael unrhyw gymorth.

Er bod rhai o eithriadau, ar y cyfan mae pobl yn credu bod y cyngor a roddwyd wedi bod yn fuddiol. Dywedodd rhai nad ydynt yn gwybod sut y byddent wedi ymdopi hebddo.

*"Rydw i'n cael cymorth, mae fy meddyg teulu yn fy helpu gyda'm holl faterion iechyd. Rydw i wedi cael cymorth i gael Gorchymyn Gostwng Dyledion er mwyn rhoi trefn ar f'arian, ac rydw i wedi cael cyngor ar gyllidebu a chymorth gyda budd-daliadau lles ..Dwn i ddim sut y byddwn i wedi ymdopi ar ben fy hun .. mae ymweliadau cartref wedi bod yn berffaith i mi gan fy mod yn gwybod na fyddwn wedi gallu mynd allan i apwyntiadau pan oeddwn yn teimlo mor isel."*

Cafodd nifer o ffynonellau cymorth gwahanol eu henwi gan gynnwys cymorth answyddogol gan deulu a/neu ffrindiau i gymorth mwy ffurfiol gan asiantaethau cynghori (gan gynnwys Cyngor ar Bopeth a Shelter Cymru), meddygon teulu/gweithwyr iechyd, a chymorth uniongyrchol wedi'i ddarparu gan eu hawdurdod lleol neu eu cymdeithas tai.

Roedd y cymorth hwn fel a ganlyn:

- ✓ Cymorth gyda chyllidebu
- ✓ Help i lenwi ffurflenni
- ✓ Darparu cyngor cyffredinol ac eiriolaeth
- ✓ Cymorth mwy arbenigol wrth apelio yn erbyn penderfyniadau

[34] 'Making the case: the value to society of the Citizens Advice service' Cyngor ar Bopeth (Ebrill 2014)
[35] Gweler troednodyn 34

Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Mae cyfranogwr â dyslecsia wedi cael cymorth gan ei Weithiwr Cymorth i'w helpu i gwblhau ffurflenni cais ar gyfer budd-daliadau a oedd wedi peri trafferthion iddo yn y gorffennol. Mae'n credu mai bwriad y ffurflenni yw *'gofyn cwestiynau i'ch baglu a gwneud pethau'n anodd eu deall yn fwriadol'*. Heb y cymorth y mae'n ei gael ar hyn o bryd, ni fyddai wedi gallu ymdopi;

- Mae cwpl wedi derbyn cymorth gan eu Gweithiwr Cymorth i gael gafael ar daliadau tai yn ôl disgresiwn sydd wedi eu rhwystro rhag bod yn ddigartref;

- Dywedodd cyfranogwr arall bod Swyddog Cymorth i Denantiaid wedi ei helpu i ddod o hyd i lety priodol, wedi rhoi cymorth ar gyllidebu yn ogystal â'i helpu i gwblhau ffurflenni apêl ar gyfer lwfans cyflogaeth a chymorth. Heb y cymorth hwn, byddai wedi bod *'ar goll.'*

Mae ein canfyddiadau'n dangos bod y dull ymgysylltu yn ogystal â phwy yw'r sefydliad sy'n darparu'r cymorth ill dau'n ffactorau pwysig o ran annog pobl i ofyn am y cymorth y gallant fod ei angen.

*"Does dim diben anfon e-bost neu lythyr ataf, rydw i angen rhywun i eistedd gyda mi a mynd drwyddo fo hefo fi. Mae fy strôc wedi effeithio arna i. Dydw i ddim yr un person ac rydw i angen rhywun yma gyda mi i ddweud gwna hyn a gwna'r llall. Dydw i ddim yn hyderus mwyach."*

Dywedodd rhai pobl wrthym eu bod yn rhy falch i ofyn am gymorth neu eu bod yn amheus o bobl mewn awdurdod.

*"Dydw i ddim yn gwybod lle i fynd am gymorth. Rydw i am gadw draw o'r awdurdodau rhag ofn y bydd yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau neu ar les fy merch a'm hwyrion."*

*"Ar yr adegau prin rydw i wedi siarad â rhywun am y newidiadau, rydw i'n mynd mor bryderus a dryslyd am yr hyn maent yn mwydro amdano, 'does gen i ddim awydd siarad am y mater."*

Mae'n amlwg hefyd o'n hastudiaeth nad oedd pawb a oedd am gael cymorth yn gallu cael gafael arno. Gall cyrraedd pobl nad ydynt yn troi at wasanaethau cymorth traddodiadol fod yn her. Mewn blynyddoedd diweddar, mae Cyngor ar Bopeth wedi ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy ehangu ein gwasanaethau allgymorth – rhoi cynghorwyr mewn lleoliadau cymunedol ac iechyd – yn ogystal â gwella ein gwasanaethau ffôn a digidol. Mae'n hanfodol sicrhau bod adnoddau ar gyfer y math hwn o waith yn parhau.

### Astudiaeth achos tri

Mae Iris yn oedolyn ifanc sengl (16-25 oed) sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anabledd corfforol. Ar hyn o bryd mae'n byw mewn hostel â chymorth ar gyfer y digartref ar ôl cael ei throi allan o'i llety blaenorol oherwydd ôl-ddyledion rhent. Mae'n hawlio lwfans cyflogaeth a chymorth a budd-dal tai. Nid oedd ganddi unrhyw ddealltwriaeth o'r newidiadau i fudd-daliadau ac nid oedd yn gwybod y byddai'n cael cosb tanfeddiannu nes iddi ddarganfod bod ganddi ôl-ddyledion rhent. Roedd yn y coleg ar y pryd ac ni allai fforddio gwneud y taliadau rhent ychwanegol gan ei bod wedi prynu deunyddiau ar gyfer ei chwrs coleg. O ganlyniad i'r ôl-ddyledion, digartrefedd ddaeth i'w rhan.

Ar hyn o bryd mae Iris yn talu gordaliad yn ei budd-dal tai sy'n cael ei ddidynnu o'i budd-daliadau ac mae'n cael trafferth ymdopi. Mae'n mynd heb fwyd ac nid yw'n cymdeithasu â ffrindiau oherwydd ei sefyllfa ariannol:

*"Dydw i ddim yn bwyta rhyw lawer. Mae'n rhaid i ddillad ac esgidiau ddisgwyl. Rydw i'n byw ar yr hyn sydd gen i. Dydw i ddim yn cymdeithasu â dweud y gwir."*

Mae'n teimlo bod y portread y cyfryngau o bobl ar fudd-daliadau yn creu stigma annheg.

*"Maen nhw'n gwneud iddi edrych fel bod pawb yn cymryd mantais. Rydw i wedi cael pobl yn rhoi llond ceg i mi am fod ar fudd-daliadau. Maen nhw'n meddwl fy mod yn ddiog. Dyw e ddim yn braf iawn. Mae angen iddyn nhw ddangos pa mor anodd yw hyn i bobl. Does gan wleidyddion ddim syniad. Ddylen nhw dreulio amser yn byw ar yr arian rydyn ni'n byw arno er mwyn gweld sut maen nhw'n ymdopi."*

Mae Iris yn bryderus am newidiadau yn y dyfodol, gan gynnwys y broses o gyflwyno credyd cynhwysol. Mae'n teimlo y gallai pobl ifanc sydd heb sgiliau cyllidebu gael trafferth rheoli eu harian pan fyddant yn ei dderbyn yn uniongyrchol bob mis:

*"Mae'r busnes misol yn fy mhoeni gan y bydd raid i mi geisio gwneud i fy arian bara am fis a byddai hynny'n anodd iawn. Rydw i'n cael trafferth ar ddau daliad y mis fel y mae. Dydw i ddim am fynd at fy manc. Efallai y byddaf yn drysu gyda'r swm a roddwyd i mi ac yna'n gorwario. Neu os ydw i mewn twll, efallai y byddai'n cael fy nhemptio i'w ddefnyddio. Dydw i ddim am allu gwneud hynny."*

Yn ei chartref yn yr hostel, mae gan Iris fynediad at weithwyr allweddol sy'n gallu ei chynorthwyo gyda chynnal ei thenantiaeth gyfredol. Mae'r cymorth hwn yn amhrisiadwy iddi:

*"Byddai fy sefyllfa'n llawer gwaeth hebddyn nhw. Maen nhw wedi fy helpu i roi trefn ar f'arian ac i gyllidebu."*

*Cymorth yn y dyfodol*

Mae ein canfyddiadau'n dangos sut mae'r newidiadau i fudd-daliadau'n effeithio ar fywydau pobl mewn sawl ffordd ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu cyngor cyfannol i hawlwyr. Hyd yn oed cyn y newidiadau, byddai pobl wedi bod yn byw ar incwm isel. Felly nid yw'n syndod bod gostwng eu hincwm ymhellach wedi arwain at ddyled ymysg cyfranogwyr neu ddyled bellach a'u bod yn cael trafferth fforddio'r rhent a hanfodion sylfaenol.

Mae'n hanfodol bod pawb sy'n cael eu heffeithio gan y diwygiadau lles presennol a rhai'r dyfodol yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir os oes angen hynny arnynt.

Gofynnwyd i gyfranogwyr pa fath o gymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd neu y byddent am ei gael er mwyn eu helpu i ymdopi â'r newidiadau yn y dyfodol.

Dyma'r mathau o gymorth a nodwyd amlaf:

- ✓ Cymorth gyda chyllidebu a rheoli arian
- ✓ Sgiliau byw'n annibynnol ar gyfer pobl ifanc gan gynnwys coginio, siopa ar gyllideb, rheoli biliau a thenantiaeth
- ✓ Cyngor ar ddyledion
- ✓ Eiriolaeth a rhywun i'w helpu i ymladd eu hachos
- ✓ Cymorth i lenwi ffurflenni cymhleth
- ✓ Cymorth ymarferol gyda materion fel dychwelyd i weithio, gwneud cais am fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a chael y tariffau ynni rhataf.

*"Rydw i wedi tyfu lan mewn gofal felly fu gen i ddim mam erioed i'm dysgu sut i ymdopi â materion fel hyn. Dydw i ddim wedi cael cyfarwyddyd ar filiau ac ati. Cefais hep gan fy Swyddog Gadael Gofal wrth i mi setlo i'm cartref ond dydw i ddim wedi cael unrhyw gymorth i reoli pethau o hynny mlaen. Ddyle pobl ddysgu am faterion fel hyn gan eu rhieni ond os nad ydy rhieni'n gwybod eu hunain, neu os nad ydyn nhw yno, mae'n golygu na fydd eu plant yn gwybod. Byddai dosbarthiadau ar gyfrifoldebau ariannol yn beth da. Fe fyddwn i'n mynd petawn ni'n gwybod bod rhai ar gael."*

Yn gyffredinol, mae'n well gan bobl gael cymorth wyneb yn wyneb lle bynnag y bo'n bosibl, gan fod hyn yn sicrhau y gellir darparu gwybodaeth mewn fformat priodol ac y ceir cymorth uniongyrchol, os oes angen, i lenwi ffurflenni cais neu i drafod y dewisiadau. Mae rhai yn rhoi gwerth ar sesiynau cartref hefyd, yn enwedig y rhai sy'n ei chael yn anodd teithio i fannau eraill. Gellir trafod materion sensitif yn fwy agored hefyd mewn amgylchedd cyfarwydd a diogel.

Er bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith bod gwybodaeth/cymorth yn cael ei ddarparu mewn amrywiaeth o fformatau sy'n rhoi hyblygrwydd a dewis (ee. ar-lein; ffôn; gwybodaeth ysgrifenedig neu amlsianel) mae allgau digidol yn broblem i lawer o gyfranogwyr.

Dangosodd gwaith ymchwil diweddar ar y defnydd o'r rhyngrwyd yng Nghymru a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru [36] nad yw bron i chwarter oedolion Cymru (23 y cant) yn defnyddio'r rhyngrwyd. Mae'r ffigur hwn yn codi i ychydig dros ddau o bob pump o'r rhain sy'n byw ag anabledd/cyflwr iechyd tymor hir (41 y cant). Y prif resymau a roddir am beidio â'i ddefnyddio yw diffyg angen tybiedig (57 y cant) neu oherwydd nad oedd pobl yn gwybod sut i'w ddefnyddio (42 y cant).

Mynegodd lawer o bobl a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn eu pryder am y ddibyniaeth gynyddol ar ddarparu gwasanaethau ar-lein ac maen nhw'n teimlo bod rhai pobl ag anableddau neu gyflyrau yn cael eu cosbi'n ormodol wrth i fwy a mwy o wasanaethau gael eu darparu drwy'r rhyngrwyd. Roedd rhwystrau pellach yn cynnwys cysylltiad band eang gwael mewn ardaloedd gwledig.

Bydd y broses o gyflwyno'r credyd cynhwysol yn golygu y bydd disgwyl i'r mwyafrif o hawlwyr wneud eu cais a'i reoli ar-lein. Y prif nod yw helpu i symleiddio'r broses a lleihau costau gweinyddu. Dangosodd astudiaeth sylweddol o gleientiaid 'perthnasol i gredyd cynhwysol' a gynhaliwyd gan Cyngor ar Bopeth yn 2013 fod dwy ran o dair o gyfranogwyr (66 y cant) yn methu â mynd ar-lein i reoli cais yn y cyfnod asesu cychwynnol. Yn dilyn cymorth gan Cyngor ar Bopeth, roedd dros chwech o bob deg (62 y cant) wedi gwella eu sgiliau a'u gallu yn y maes hwn.

Felly, er mwyn bod yn llwyddiannus bydd angen cefnogi'r dull 'digidol yn bennaf' gydag adnoddau ychwanegol ar gyfer asiantaethau cynghori ac eraill fel y gallant helpu hawlwyr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer rheoli cais ar-lein. Mae sgiliau o'r fath yn wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau rhyngrwyd eraill.

Roedd y graddau yr oedd cyngor annibynnol ar gael yn cael ei ystyried yn bwysig i gyfranogwyr waeth pa gyfrwng a ddefnyddir.

*"Rydw i'n credu byddai'n braf cael cyngor gwir ar yr hyn y gallwch chi ei wneud yn fy sefyllfa i. Dydw i ddim yn gwybod beth yw fy hawliau, na beth arall sydd ar gael i helpu .. byddai cymorth gyda hynny'n wych. Nid llythyrau'n unig yn dweud yr hyn a'r llall a 'does dim byd arall y gallwch chi ei wneud am y sefyllfa."*

Teimlwyd hefyd bod angen hyrwyddo'r wybodaeth am y cymorth amrywiol sydd ar gael yn well. Nodwyd y taliadau tai yn ôl disgresiwn a'r Gostyngiad Cartref Cynnes fel enghreifftiau penodol.

[36] Gweler troednodyn 22

*“Weithiau rydych chi’n clywed am bethau yn ddamweiniol ar lafar gan bobl eraill, er enghraifft, doeddwn i ddim yn gwybod bod taliad cartref cynnes o £130 ar gael. Doedd neb wedi dweud wrtha i amdano, fy nghymydog ddywedodd wrtha i. Faint o bobl sydd ddim yn gwybod amdano? Roeddwn i’n arfer mynd heb wres cyn dysgu am y cynllun hwn.”*

Yn bwysig ddigon, mae pobl yn teimlo bod angen pwyslais ar atebion tymor hir yn ogystal â chyngor a chymorth tymor byr er mwyn helpu i ddatrys sefyllfaoedd pobl. Mae hyn yn cynnwys darparu tai hygyrch fforddiadwy.

*“Does dim diben (cael cymorth); mae pawb yn dweud yr un peth. Dydyn nhw ddim yn eich helpu, dim ond dweud wrthych chi be rydych chi’n ei wybod eisoes. Rydw i angen tŷ llai ond does dim ar gael, beth gall unrhyw un ei ddweud wrtha i?”*

Byddai rhai pobl a gymerodd ran yn hoffi cael mwy o gyfle i gyfarfod a thrafod eu profiadau o’r diwygiadau â hawlwyr eraill sy’n cael yr un profiadau. Ffurfiodd nifer o gyfranogwyr Grŵp Cefnogaeth gan Gymheiriaid ar ôl cymryd rhan yn un o’r grwpiau ffocws ar gyfer y gwaith ymchwil hwn.

*“Rydym ni i gyd yn ymdopi â gwahanol bethau, ond gallen ni helpu ein gilydd, gallen ni ofyn … ‘ydych chi wedi rhoi cynnig ar hyn?’ Pan rydych chi ar fudd-daliadau, rydych chi’n colli’ch hyder a dydych chi ddim am fentro allan i’r byd mawr. Byddai cyfarfod unwaith y mis yn gyfle i gyfarfod a siarad gan wybod bod rhywun arall yn yr un cwch. Gallech chi rannu syniadau a gwybodaeth. Yna gallech chi fynd oddi yno a rhoi cynnig ar bethau a dychwelyd i ddweud yr hanes.”*

Mae asiantaethau cynghori ledled Cymru eisoes wedi gweld cynnydd aruthrol mewn galw am eu gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd cyfuniad o hinsawdd economaidd anodd a’r newidiadau presennol i fudd-daliadau. Mae hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar eu gwasanaethau mewn cyfnod o doriadau sylweddol mewn cyllid.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi gweld gostyngiad o 50 y cant mewn cyllid ar gyfer cyngor arbenigol a gwaith achos (gan gynnwys budd-daliadau lles a chyngor ar ddyled) yn dilyn diwedd contractau’r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ym mis Mawrth 2013. Hefyd mae’r ffaith bod arian llywodraeth leol yn crebachu wedi golygu bod rhai canghennau Cyngor ar Bopeth yn wynebu gostyngiad yn eu cyllid craidd eleni, gyda llawer yn wynebu dyfodol fwyfwy ansicr.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru’n croesawu’r cymorth parhaus y mae Llywodraeth Cymru’n ei ddarparu i wasanaethau cynghori yng Nghymru er mwyn helpu i leddfu diffygion mewn cyllid mewn cyfnod o alw cynyddol. Mae newidiadau i fudd-daliadau yn y dyfodol, yn enwedig y broses o gyflwyno credyd cynhwysol a’r broses barhaus o gyflwyno taliad annibyniaeth bersonol, yn mynd i gael goblygiadau sylweddol i wasanaeth Cyngor ar Bopeth a gwasanaethau cynghori eraill ledled Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Felly, mae’n hanfodol bod asiantaethau cynghori, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn parhau i gydweithio’n agos er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir ar gael er mwyn diwallu’r galw disgwyliedig yn y dyfodol.

## Casgliadau

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn amlygu'r effaith niweidiol y mae diwygio lles yn ei gael ar fywydau llawer o hawlwyr yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd tymor hir. Mae'r gwydnwch a welwyd gan nifer fawr o bobl wrth iddynt fynd i'r afael a'r newidiadau sylweddol hyn i'w edmygu.

Yr argraff gyffredinol yw bod pobl yn goroesi i ryw raddau ac yn 'llwyddo i ymdopi rywsut' yn hytrach na'u bod yn byw unrhyw fath o fywyd hapus a llawn. Mae cyfuniad o ostyngiadau mewn incwm a lefelau cynyddol o straen a phryder a achosir gan y newidiadau mewn budd-daliadau yn cael effaith negyddol ar agweddau pwysig o fywydau pobl gan gynnwys eu hiechyd, eu perthynas bersonol ag eraill a'u hymdeimlad o ddiogelwch gan fod llawer yn pryderu y gallent golli eu cartref.

Mae anawsterau ariannol yn cael eu gwaethygu gan drefn gosbau galetach a'r oedi mewn prosesau apelio a gwneud penderfyniadau gan fod pobl yn cael eu gadael mewn trafferthion heb fawr ddim incwm, os o gwbl, pan fo budd-daliadau'n cael eu hatal neu pan fo hawliadau newydd yn cael eu hasesu.

Mewn cyfnodau anodd o'r fath, mae'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir yn amlwg iawn. Er bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn teimlo nad oeddent wedi'u paratoi ar gyfer realiti'r sefyllfa a brofwyd hyd yn hyn yn dilyn y newid i fudd-daliadau, roedd y rhai a oedd eisoes yn gysylltiedig â rhwydweithiau cymorth presennol yn teimlo'n fwy hyderus yn eu gallu i reoli'r newidiadau cyfredol ac i ymdopi â'r newidiadau sydd i'w cyflwyno yn y dyfodol.

Mae'r canfyddiadau'n pwysleisio hefyd pa mor bwysig yw rhoi cyngor a chymorth cyfannol i bobl, gan sicrhau bod y cyngor ar newidiadau i fudd-daliadau yn cael ei gysylltu â chyngor ar ddyledion (yn enwedig ar gyfer y rhai sydd wedi colli eu hincwm budd-daliadau am gyfnod oherwydd apeliadau ynglŷn â budd-daliadau neu gosbau); sut i leihau biliau ynni (gan barhau i gynnal cartref cyfforddus a chynnes) cyngor ar gyllidebu, a chymorth ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Er bod yna dystiolaeth o ymyriadau cadarnhaol gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, clywsom am enghreifftiau o arferion gwael a gwybodaeth anghyson neu wybodaeth a oedd yn peri dryswch hefyd yn cael ei rhoi gan asiantaethau gwahanol, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, landlordiaid cymdeithasol a meddygon teulu. Felly, yn ogystal â rheoli'r newidiadau i fudd-daliadau presennol yn well, mae'n hanfodol hefyd bod gwersi'n cael eu dysgu a bod yr Adran Gwaith a Phensiynau ac eraill yn gweithredu arnynt cyn i un o'r diwygiadau mwyaf gael ei roi ar waith - sef cyflwyno credyd cynhwysol. Mae'n debygol y bydd pwysau cynyddol hefyd ar wasanaethau cynghori oherwydd y gofynnir i fwy o hawlwyr lwfans byw i'r anabl yng Nghymru i ymgeisio am daliad annibyniaeth bersonol.

Nod Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y camau gweithredu ar draws y llywodraeth yn cael eu hintegreiddio a'u cydgysylltu'n well er mwyn helpu i leddfu tlodi yng Nghymru. Mae tystiolaeth gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, gan gynnwys y gwaith ymchwil hwn, yn amlygu'r graddau y mae diwygiadau lles diweddar eisoes yn cael effaith negyddol ar lawer o aelwydydd, a gallai hynny fygwth cynnydd Llywodraeth Cymru yn y gwaith o leihau tlodi yng Nghymru.

Bydd rheoli a chydgysylltu'n effeithiol sut gall asiantaethau gwahanol yng Nghymru a phrif asiantaethau'r DU (gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith) gydweithio'n well er mwyn helpu pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan y diwygiadau lles yng Nghymru, yn hanfodol os yw anghenion cymorth pobl yn y dyfodol yn mynd i gael eu diwallu. Mae lleddfu effaith diwygio lles eisoes yn un o brif gydrannau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, fodd bynnag rydym yn credu bod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig o ran darparu cyfeiriad strategol pellach i'r prif sefydliadau yng Nghymru sy'n dod i gysylltiad â hawlwyr budd-daliadau a darpar hawlwyr budd-daliadau bob dydd. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a phob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn cydnabod bod cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol dan bwysau sylweddol a bod hyn yn debygol o barhau am flynyddoedd lawer. Rydym yn cydnabod hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru ac eraill o ran helpu'r degau o filoedd o bobl yng Nghymru sydd wedi cael eu heffeithio gan y diwygiadau lles. Fodd bynnag, gyda diwygiadau llawer mwy ar y gorwel mae mwy o angen am ddull amlasiantaethol nag erioed er mwyn sicrhau bod hawlwyr yn teimlo y gallant reoli newidiadau yn y dyfodol yn hyderus, ac atal mwy o dlodi a chaledi.

# Atodiad 1: Egluro’r cyd-destun: crynodeb o’r newidiadau diweddar i fudd-daliadau

Fis Gorffennaf 2010 cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen ymgynghori *‘21st Century Welfare’* oedd yn cyflwyno sawl dewis ar gyfer diwygio system les y DU. Yn dilyn ymgynghoriad a’r Papur Gwyn dilynol, cafodd Deddf Diwygio Lles 2012 Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mawrth 2012.

Cyflwyno credyd cynhwysol yw un o newidiadau mwyaf y Ddeddf, er ei fod yn cynnwys cyfres o newidiadau i fudd-daliadau eraill hefyd gan gynnwys disodli lwfans byw’r anabl gyda thaliad annibyniaeth bersonol, rhoi cyfyngiadau ar hawliau budd-dal tai i bobl oed gweithio yn y sector tai cymdeithasol, newidiadau i’r lwfans cyflogaeth a chymorth, a dileu budd-dal y dreth gyngor a’r gronfa gymdeithasol ddewisol (hynny yw, benthyciad argyfwng a’r grant gofal cymunedol). Prif nod y diwygio yw symleiddio’r system fudd-daliadu, cymell mwy o bobl i weithio a’i gwneud hi’n rhatach i weinyddu’r system.

Ceir crynodeb byr o rai o’r newidiadau isod, fel cyd-destun i’n gwaith ymchwil.

Many people are likely to be affected by more than one of these changes.

*Lwfans cyflogaeth a chymorth*

- Cyflwynwyd y lwfans cyflogaeth a chymorth ym mis Hydref 2008 yn y lle cyntaf, yn lle’r budd-dal analluogrwydd. Mae pobl sy’n methu gweithio oherwydd salwch ac anabledd yn gymwys i hawlio’r lwfans cyflogaeth a chymorth naill ai oherwydd eu bod wedi talu digon o gyfraniadau yswiriant gwladol (lwfans cyflogaeth a chymorth seiliedig ar gyfraniadau) neu oherwydd eu bod ar incwm isel (lwfans cyflogaeth a chymorth seiliedig ar incwm);

- Ers mis Ebrill 2012, mae llywodraeth y DU wedi cyfyngu talu lwfans cyflogaeth a chymorth seiliedig ar gyfraniadau i flwyddyn ar gyfer pawb heblaw’r rhai ag anabledd difrifol. Os yw eu hincwm yn ddigon isel, gall pobl hawlio lwfans cyflogaeth a chymorth seiliedig ar incwm (neu brawf modd) yn hytrach (efallai bod rhai pobl yn gallu hawlio’r ddau yn dibynnu ar eu hamgylchiadau). Fodd bynnag, mae llawer o bobl wedi gweld eu bod ar yr ochr anghywir i’r llinell incwm [37].

*Budd-dal tai*

- O fis Ebrill 2013 ymlaen, mae tenantiaid tai cymdeithasol o oedran gweithio sydd ag ystafell wely (ystafelloedd gwely) sbâr wedi derbyn llai o fudd-dal tai. Mae aelwydydd ag un ystafell wely sbâr yn derbyn 14 y cant yn llai o fudd-dal tai tuag at eu rhent, ac aelwydydd â dwy ystafell wely sbâr neu fwy yn derbyn 25 y cant yn llai o fudd-dal tai.

[37] *Time limiting contributory employment and support allowance to one year for those in the work-related activity group: Equality impact assessment,* DWP, 2011.
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220156/eia-esa-time-limit-wr2011.pdf

- Erbyn mis Awst 2013, roedd tua 34,000 o aelwydydd yng Nghymru wedi'u heffeithio gan y gosb tanfeddiannu (a elwir yn 'dreth ystafell wely' gan rai sylwebwyr), sy'n cyfateb i 21 y cant o holl dderbynwyr budd-dal tai mewn tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu ag 16 y cant ledled Prydain[38];

- Amcangyfrifir bod rhywun ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor yn byw yn oddeutu dwy ran o dair o'r aelwydydd a effeithir.

*Lwfans byw i'r anabl a'r taliad annibyniaeth bersonol*

- Mae'r lwfans byw i'r anabl yn darparu cymorth i blant a phobl o oedran gweithio sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor sydd ag anghenion gofal, goruchwyliaeth neu symudedd (nad yw'n destun prawf modd);

- O fis Ebrill 2013 ymlaen, mae'r taliad annibyniaeth bersonol wedi'i gyflwyno fesul tipyn i gymryd lle'r lwfans byw i'r anabl erbyn 2017. Ers 10 Mehefin 2013, nid yw pobl sy'n byw yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi gallu gwneud cais newydd am lwfans byw i'r anabl oni bai eu bod dan 16 oed;

- Fel y lwfans byw i'r anabl, mae'r taliad annibyniaeth bersonol yn cynnwys dwy elfen - yr elfen 'byw'n ddyddiol', er mwyn helpu i gymryd rhan mewn bywyd bob dydd, a'r elfen 'symudedd', er mwyn cael cymorth i symud o gwmpas. Dim ond dwy gyfradd o'r elfen 'byw'n ddyddiol' sydd ar gael dan daliad annibyniaeth bersonol, o gymharu â thair cyfradd ar gyfer y lwfans byw i'r anabl. Does dim trosglwyddiad awtomatig o lwfans byw i'r anabl i'r taliad annibyniaeth bersonol;

- Ni fydd y newidiadau yn effeithio ar lawer o'r bobl sy'n derbyn lwfans byw i'r anabl ar hyn o bryd tan fis Hydref 2015. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd penodol, fodd bynnag, gan gynnwys Cymru, mae Adran Gwaith a Phensiynau San Steffan wedi dechrau gofyn i rai sy'n hawlio lwfans byw i'r anabl ar hyn o bryd wneud cais newydd am daliad annibyniaeth bersonol. Gallai'r broses ailasesu olygu bod taliadau'n cynyddu, gostwng neu'n parhau'r un fath.

*Ailystyriaeth orfodol*

- Os nad yw pobl yn cytuno â phenderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau ynglŷn â'u budd-dal, gallant herio hynny.

- Yn sgil y broses ddiwygio, os cafodd penderfyniad ar hawliad am fudd-dal ei wneud ar 28 Hydref 2013 neu wedi hynny, rhaid i bobl ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau gynnal 'ailystyriaeth orfodol' cyn gallu cyflwyno apêl. Rhaid iddyn nhw wneud hyn o fewn mis i'r dyddiad hysbysu am benderfyniad. Mae hyn yn berthnasol i holl fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau.

[38] http://assemblyinbrief.wordpress.com/2013/12/04/figures-on-the-impact-of-housing-benefit-social-housing-size-criteriaavailable-for-the-first-time/

- Os yw rhywun ar lwfans cyflogaeth a chynhaliaeth wedi methu asesiad gallu i weithio ac wedi'i farnu'n 'ffit i weithio' yna ni fydd yn derbyn y lwfans yn ystod y broses ailystyriaeth orfodol. Gallai hawlio lwfans ceiswyr gwaith fodd bynnag. Does dim terfyn amser i'r broses ailystyriaeth orfodol. Dim ond o ddechrau'r cam apêl yn dilyn ailystyriaeth orfodol aflwyddiannus y byddant yn derbyn lwfans cyflogaeth a chynhaliaeth.

*Cyfundrefn amodau a chosbau*

- Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi gweld newidiadau i'r amodau a'r gofynion ar gyfer derbyn rhai budd-daliadau hefyd, a'r prif nod yw annog ymddygiad sy'n debygol o arwain at gyflogaeth e.e. chwilio am nifer penodol o swyddi bob wythnos. Os na fydd rhywun yn cydymffurfio â'r rheolau hyn, gall wynebu 'cosb', sy'n golygu atal talu budd-daliadau am gyfnod penodol fel arfer.

- Ym mis Hydref 2012, newidiodd isafswm y cyfnod cosb i hawlwyr lwfans ceiswyr gwaith o wythnos i bedair wythnos.

*Lles cymdeithasol lleol*

- Sefydlwyd y Gronfa Cymorth Dewisol (DAF) gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2013 yn sgil datganoli cyfrifoldeb a chyllid ar gyfer cymorth i gymryd lle'r benthyciad argyfwng a'r grantiau gofal cymunedol

- Nod y gronfa yw creu system o gymorth ariannol i helpu pobl sydd mewn sefyllfaoedd argyfyngus neu sy'n dioddef caledi arbennig. Mae grantiau ar gael ar ffurf taliadau cymorth mewn argyfwng - i helpu rhywun mewn argyfwng neu pan fo perygl uniongyrchol i iechyd neu les; a thaliadau cymorth i unigolion - er mwyn helpu pobl i barhau, neu gychwyn, byw'n annibynnol yn y gymuned.

*Newidiadau eraill*

- Ers mis Ebrill 2011 mae'r cynnydd blynyddol mewn budd-daliadau yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). O fis Ebrill 2013 ymlaen bydd y mwyafrif o fudd-daliadau yn cael eu huwchraddio ddim mwy nag 1 y cant am y tair blynedd nesaf;

  Mae gosod cap ar fudd-daliadau yn gosod uchafswm ar faint o fudd-dal y gall cartref ei dderbyn: £350 yr wythnos ar gyfer oedolyn sengl heb blant a £500 yr wythnos ar gyfer cwpl neu riant sengl, faint bynnag o blant sydd ganddynt/ganddo. Mae'r budd-daliadau sydd wedi'u heithrio o'r cap yn cynnwys lwfans byw i'r anabl, taliad annibyniaeth bersonol, lwfans gweini, lwfans cyflogaeth a chymorth (grŵp cymorth yn unig) a chredyd treth gwaith.

*Credyd cynhwysol*

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd credyd cynhwysol yn cyfuno chwech o fudd-daliadau presennol i un taliad sengl: lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, ESA yn seiliedig ar incwm, cymhorthdal incwm, credyd treth gwaith, credyd treth plant a budd-dal tai.

Mae'r dull o hawlio a thalu'r budd-dal yn newid hefyd, a fydd yn golygu addasiadau sylweddol i lawer o bobl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Un ôl-daliad misol, sengl, yn hytrach na dau neu dri o daliadau ar wahanol adegau o'r mis;
- Un taliad fesul aelwyd i un cyfrif banc, yn hytrach na sicrhau bod taliadau ar gyfer plant yn cael eu gwneud i'r prif ofalwr;
- Hawlwyr yn gyfrifol am dalu eu rhent yn uniongyrchol i'w landlord, yn hytrach na budd-dal tai yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord;
- 'Digidol yn ddiofyn' – bydd disgwyl i hawlwyr wneud eu cais ar-lein a'i reoli ar-lein.

Mae'r budd-dal newydd hwn yn cael ei gyflwyno'n raddol iawn. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r credyd cynhwysol gwmpasu pob cais am fudd-dal erbyn 2017. Ers mis Ebrill, mewn nifer cyfyngedig o ardaloedd 'pathfinder' Canolfan Byd Gwaith, gofynnwyd i grwpiau penodol o hawlwyr (e.e. rhai pobl sengl, di-waith sy'n gallu gweithio) ymgeisio am gredyd cynhwysol. Ym mis Ebrill 2014, Shotton yn y gogledd oedd yr ardal Canolfan Byd Gwaith ddiweddaraf i fod yn ardal pathfinder.

Mae Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol (LSSF) y credyd cynhwysol yn darparu rhesymeg gyfredol ar sut y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ariannu cymorth lleol ar gyfer hawlwyr ag anghenion cymhleth (e.e. pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu, sy'n ddigartref neu sy'n gaeth i sylweddau) a fydd angen cymorth ychwanegol wrth bontio i'r credyd cynhwysol.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dyrannu cyllid ar gyfer cyngor a chymorth ar faterion credyd cynhwysol drwy'r LSSF. Bydd rhai hawlwyr yn debygol o fod angen cymorth i ddeall y system newydd, i wneud ceisiadau ar-lein ac i reoli eu taliadau misol. Mae'r fframwaith yn ymdrin â'r ffordd y mae partneriaethau cyfredol yn gweithio hefyd, a sut gallai dull partneriaeth weithio yn y dyfodol. Mae'n cynnig sut y dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol nodi a chomisiynu partneriaethau cyflawni lleol er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn.

*Gostyngiadau'r dreth gyngor (fe'i gelwir yn cymorth y dreth gyngor hefyd)*

Ar ddiwedd mis Mawrth 2013, diddymwyd budd-dal y dreth gyngor gan Lywodraeth y DU ynghyd â gostyngiad 10 y cant mewn cyllid ar gyfer cymorth y dreth gyngor. Ers mis Ebrill 2013, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn gyfrifol am gynnal eu cynlluniau eu hunain ar gyfer gostyngiadau'r dreth gyngor.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf a’r flwyddyn ariannol gyfredol (2013/14 a 2014/15), mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyllideb cymorth y dreth gyngor yn dychwelyd i’r lefel yr oedd cyn y toriadau. Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o newid y mae’r bobl a oedd yn arfer derbyn budd-dal y dreth gyngor wedi’i weld hyd yn hyn yn eu taliadau. Yn dilyn adolygiad diweddar o gymorth y dreth gyngor yng Nghymru, ar 5 Mehefin 2014 cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol y byddai Llywodraeth Cymru'n parhau â’r trefniant hwn am ddwy flynedd arall o leiaf[39]. Mae hyn yn golygu y bydd tua 320,000 o aelwydydd yng Nghymru yn parhau i dderbyn yr uchafswm y gellir ei hawlio o gymorth y dreth gyngor tan 2017, a thu hwnt i hynny o bosibl. Ni fydd dros 200,000 o bobl yn talu unrhyw dreth gyngor o gwbl. Mae hyn yn wahanol i Loegr, lle mae hawlwyr mewn sawl ardal yn gorfod gwneud cyfraniad i’w bil treth gyngor erbyn hyn.

[39] http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2014/counciltaxsupport/?lang=en

## Atodiad 2: Methodoleg ymchwil

Comisiynwyd Shelter Cymru gan Cyngor ar Bopeth i wneud gwaith ymchwil ansoddol pwrpasol er mwyn archwilio effaith gronnus y diwygiadau lles presennol a rhai'r dyfodol ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru.

Gwnaeth 49 o hawlwyr budd-daliadau gymryd rhan yn y gwaith ymchwil. Casglwyd tystiolaeth drwy ddefnyddio cyfuniad o 31 o gyfweliadau trylwyr (wyneb yn wyneb a dros y ffôn) a phump o grwpiau ffocws bach yn cynnwys 18 o bobl.

Recriwtiwyd y cyfranogwyr drwy ddefnyddio cymorth nifer o sefydliadau a'u rhwydweithiau, ynghyd â'r dechneg 'pelen eira'. Defnyddir y dechneg 'pelen eira' yn aml gan ymchwilwyr pan fo'n anodd dod o hyd i aelodau poblogaeth darged. Mae'n defnyddio cymorth cyfranogwyr presennol i gael gafael ar bobl eraill a allai fod yn byw mewn amgylchiadau tebyg.

Defnyddiodd yr astudiaeth ddull cyfranogol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio Ymchwilwyr Cymheiriaid law yn llaw â Swyddogion Ymchwil, i gynnal y cyfweliadau ac i gynghori ar y fethodoleg. Bu hyn yn gymorth i annog hawlwyr budd-daliadau i gymryd rhan yn ogystal ag yn gymorth o ran sicrhau bod y gwaith ymchwil yn cael ei arwain gan gyfranogwyr.

Cynhaliwyd yr holl gyfweliadau rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2014.

Mae hon yn astudiaeth ansoddol felly oherwydd y sampl bychan, dylid ystyried y canfyddiadau'n *ddangosol* yn hytrach nag yn derfynol. Nid yw'r canfyddiadau'n gynrychioladol o bob hawliwr budd-daliadau yng Nghymru.

Roedd dosbarthiad daearyddol y cyfranogwyr yn cynnwys pymtheg o ardaloedd awdurdod lleol – fel y nodir yn y tabl isod.

| **Ardaloedd awdurdod lleol:** | | |
|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | Conwy | Sir Fynwy |
| Caerffili | Sir y Fflint | Powys |
| Caerdydd | Merthyr Tudful | Abertawe |
| Sir Gaerfyrddin | Casnewydd | Torfaen |
| Ceredigion | Castell-nedd Port Talbot | Ynys Môn |

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr holl gyfranogwyr o oedran gweithio. Roedd bron i ddwy ran o bump o'r cyfranogwyr rhwng 40 a 55 oed (19 o bobl) roedd ychydig dros chwarter yn 55 oed a hŷn (13 o bobl); roedd tua un o bob chwech rhwng 25-39 oed (8 o bobl) ac roedd ychydig dan un rhan o bump rhwng 16-24 oed (9 o bobl).

Roedd y grwpiau targed a nifer y cyfranogwyr ym mhob un fel a ganlyn:

- pobl sy'n byw ag anabledd/cyflwr iechyd tymor hir (39 o bobl);
- oedolion ifanc sengl (9 o bobl);
- cyplau nad ydynt yn gweithio sydd â phlant/rhieni unigol (11 o bobl),
- cyplau sy'n gweithio sydd â phlant/rhieni unigol (4 o bobl).

Gan fod pobl yn gallu nodi eu hunain pa gategori oedd yn disgrifio eu sefyllfa orau, nododd rhai pobl fwy nag un categori.

Mae'r mwyafrif o gyfranogwyr (69 y cant) eisoes wedi cael eu heffeithio gan ddau neu fwy o'r newidiadau i'r budd-daliadau y maent yn eu derbyn. Roedd y cyfuniad mwyaf cyffredin yn gysylltiedig â'r newid i lwfans cyflogaeth a chymorth a'r gosb am danfeddiannu. Mae nifer o gyfranogwyr wedi cael eu heffeithio hefyd gan y drefn o gosbau llymach, yn enwedig pan fyddant law yn llaw â newid arall mewn budd-daliadau, fel y newidiadau i'r gronfa gymdeithasol. Mae pob un yn debygol o gael ei effeithio gan ddiwygiadau yn y dyfodol os nad yw ei sefyllfa gyfredol yn newid, yn fwyaf arbennig yn sgil cyflwyno'r credyd cynhwysol. Er bod rhai eisoes wedi gorfod gwneud cais am y taliad annibyniaeth bersonol, mae'n debygol y gofynnir i lawer mwy o'r cyfranogwyr wneud cais am y taliad annibyniaeth bersonol yn y dyfodol wrth iddo ddisodli lwfans byw i'r anabl.

Ysgrifennwyd gan Lindsey Kearton a Jacqueline Aneen Campbell
Am ragor o wybodaeth e-bostiwch: Lindsey.Kearton@Citizensadvice.org.uk

**Citizens Advice Cymru**
Tŷ Quebec
Pont-Y-Castell
5-19 Heol Ddwyrain Y Bontfaen
Caerdydd CF11 9AB

Teleffon: 03000 231011

Twitter: twitter.com/CABCymru

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2014

www.citizensadvice.org.uk
www.adviceguide.org.uk

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.
Rhif cofrestru elusen 279057.